

Canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar gyflawni prosesau allweddol

Etholiadau Comisiynwyr yr
Heddlu a Throseddu yng
Nghymru a Lloegr ar 5 Mai
2016

Rhagfyr 2015

(diweddarwyd ym mis Ionawr 2016 er mwyn ychwanegu
penodau 4-8)

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Gymraeg. Dylai'r adnoddau hyn gael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Pennod / Paragraff
Chwefror 2016	Diweddariad ar wybodaeth am anerchiadau etholiadol i'w cyflwyno i'r Gweinidog	Pennod 4, paragraff 4.4 a 4.14
Chwefror 2016	Storio papurau enwebu ychwanegol	Pennod 8, paragraff 8.6 ac 8.7
Mawrth 2016	Wedi ei ailgyhoeddi i gynnws cyfeiriadau cyfreithiol	DD/G
Mehefin 2016	Wedi'i ddiweddarau i newid y rhif ffôn ar gyfer y swyddfa deisebau etholiadol	8.31

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	2
	Diben	2
	Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn	3
2	Ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantiaid	5
	Briffiadau	6
	Rhoi gwybodaeth am brosesau etholiadol.....	7
	Pecynnau enwebu.....	8
	Canllawiau ar derfynau gwario	9
	Anghenion mynediad i ymgeiswyr	10
3	Y broses enwebu yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	11
	Ffurflenni enwebu.....	11
	Cyflwyno papurau enwebu	12
	Presenoldeb wrth gyflwyno papurau enwebu	15
	Gofynion enwebu.....	16
	Penderfynu ar y ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref	26
	Cywiro mân wallau	28
	Gwrthwynebu ffurflenni enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref	28
	Tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl	29
	Ar ôl i enwebiadau gau	30
4	Anerchiadau etholiadol	32
	Ystyried anerchiadau etholiadol	34
	Anfon copi terfynol yr anerchiad etholiadol ymlaen	35
	Eich datganiad i'w gynnwys ar y wefan	35
5	Asiantiaid yn yr etholiad	37
	Yr asiant etholiadol	37
	Is-asiantiaid	38
	Asiantiaid eraill	39
6	Hysbysiadau.....	40
	Llunio a chyhoeddi hysbysiadau.....	40
	Hysbysiad etholiad	41
	Datganiad am yr unigolion a enwebwyd	42
	Hysbysiad pleidleisio	43
	Hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio	43
	Hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio	44
	Cardiau pleidleisio	45
	Paratoi papurau pleidleisio	45
7	Prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau	47
	Coladu'r canlyniad	47

8	Ar ôl datgan y canlyniad	58
	Gweithgarwch ar ôl yr etholiad	58
	Gwariant etholiadol ymgeiswyr	60
	Heriau i ganlyniad yr etholiad	61
	Adolygu gweithdrefnau etholiad	63

1 Cyflwyniad

Diben

1.1 Diben y canllawiau hyn yw helpu Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu i ymgymryd â'u rôl yn ystod etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a fydd yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2016.

1.2 Cawsant eu datblygu drwy ymgynghori'n fanwl ag aelodau o Fwrdd Cynghori Etholiadol y DU a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestrïadau a Refferenda. Maent yn cynnwys yr hyn yr ydym ni, y Bwrdd Cynghori Etholiadol a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestrïadau a Refferenda yn credu y dylai Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ei ddisgwyl gan eu staff wrth baratoi ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar 5 Mai 2016 a'u cynnal.



Er gwaethaf yr ansicrwydd ynglŷn â manylion y ddeddfwriaeth, rydym wedi datblygu'r canllawiau hyn ar yr adeg hon er mwyn iddynt fod ar gael mewn pryd i helpu Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu i ymgymryd â gwaith cynllunio a pharatoi'n gynnar ar gyfer cynnal yr etholiad yn eu hardaloedd. Datblygwyd y canllawiau hyn yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth fel y mae ar hyn o bryd ac mae'n gwneud rhai rhagdybiaethau ynghylch beth fydd deddfwriaeth bellach yn ei ddarparu, ac felly gall newid. Byddwn yn diweddarau ac yn ailgyhoeddi'r canllawiau fel y bo'n briodol pan fydd y ddeddfwriaeth yn glir.

1.3 Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu paratoi drwy ystyried y gofynion a nodwyd yn y ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd) a dylid eu darllen yn unol â hi:

- Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000
- Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Etholiadau) (Cymru a Lloegr) 2004
- Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006
- Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006
- Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Mynediad i Ddogfennau Etholiadol) 2007
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012
- Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Dynodi Awdurdodau Lleol) (Rhif 2) 2012
- Rheoliadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Anghymhwys) (Darpariaethau Atodol) 2012
- Rheoliadau Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Taliadau Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Ffurflenni Cymraeg) 2012
- Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadau 2013
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) 2015

1.4 Dim ond y ddeddfwriaeth sy'n gymwys ar hyn o bryd ac sy'n uniongyrchol berthnasol i'r canllawiau hyn a gaiff ei chynnwys yn y rhestr uchod. Rydym yn disgwyl deddfwriaeth bellach a fydd yn darparu ar gyfer diwygio rheoliadau trefn cynnal etholiadau, rheolau cyfuno yng Nghymru, dynodi Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu a ffioedd a thaliadau.

1.5 Mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus a geir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu yng Nghymru hefyd ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu yn yr un modd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

1.6 Dyma'r ail o ddwy ran o ganllawiau i helpu Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu i gynllunio ar gyfer yr etholiadau a'u cynnal. Nododd y rhan gyntaf, sef [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#), rolau a chyfrifoldebau'r sawl sydd ynghlwm wrth gynnal etholiadau mis Mai 2016 ledled Cymru a Lloegr a thynnodd sylw at yr ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y meysydd lle y dylech gydgyssylltu â rhanddeiliaid (yn enwedig Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau eraill) er mwyn llywio'ch gwaith cynllunio a sicrhau cysondeb drwy'r ardal heddlu a'r adnoddau sydd ar gael i'ch helpu i gyflawni hyn yn ymarferol.

1.7 Mae'r rhan hon yn ymdrin â'r canlynol:

- y broses enwebu
- anerchiadau etholiadol ymgeiswyr
- gweinyddu'r etholiad
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau, coladu'r canlyniadau a datgan y canlyniad ar ôl datgan y canlyniad

1.8 Mae pob un o benodau'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r canlynol:

- yr hyn y mae'n ofynnol i chi ei wneud yn ôl y gyfraith ('rhaid')
- yr hyn y disgwyliwn y bydd angen i chi ei roi ar waith a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld er mwyn gallu bodloni ein hunain bod modd sicrhau canlyniadau allweddol safonau perfformiad y Comisiwn
- arfer a argymhellir er mwyn eich helpu i ddeall eich dyletswyddau a'u cyflawni

1.9 Mae'r canllawiau hyn wedi'u hategu gan adnoddau y gellir cael gafael arnynt drwy'r dolenni a geir yn y canllawiau.

1.10 Nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â'ch rolau a'ch cyfrifoldebau fel Swyddog Canlyniadau Lleol nac fel unrhyw Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif arall yn etholiadau mis Mai 2016. Mae'r Comisiwn wedi paratoi canllawiau ar wahân i'r canlynol:

- Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau Lleol yng Nghymru (Ile y caiff pleidlais ar gyfer etholiad [Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei chyfuno â'r bleidlais yn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#))
- Swyddogion Canlyniadau Lleol yn Lloegr (Ile y cynhelir etholiad [Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#) yn unig)
- Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol (Ile y caiff y bleidlais mewn [etholiad llywodraeth leol ei chyfuno â'r bleidlais yn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr](#))

1.11 Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'n canllawiau neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau Mai 2016, mae [timau lleol y Comisiwn](#) ar gael i roi cymorth drwy'r amser. Byddwn yn darparu gwasanaeth cynghori y tu allan i oriau er mwyn ymdrin ag ymholiadau gweinyddu etholiadau brys yn y cyfnod yn arwain at etholiadau mis Mai 2016 ac yn syth wedyn. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth y tu allan i oriau drwy ein Bwletin ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.

2 Ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantiaid

2.1 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, rydych yn gyfrifol am bob agwedd ar y broses enwebu yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu¹.

2.2 Lle y caiff yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ei gyfuno ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Swyddog Canlyniadau Etholaethol fydd yn gyfrifol am gynnal etholiad y Cynulliad a'r rhan honno o'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gynhwysir yn ei etholaeth².

2.3 Lle y caiff yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ei gyfuno ag etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr, y Swyddog Canlyniadau Llywodraeth Leol fydd yn gyfrifol am gynnal yr etholiad ar gyfer yr etholiad llywodraeth leol a'r rhan honno o'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gynhwysir yn ei ardal awdurdod lleol³.

2.4 Lle na chaiff yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ei gyfuno ag unrhyw etholiad arall, y Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yn gyfrifol am gynnal yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ei ardal bleidleisio.



Rhoddir gwybodaeth fanylach am rolau a chyfrifoldebau Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, Swyddog Canlyniadau Llywodraeth Leol a Swyddog Canlyniadau Lleol mewn perthynas ag etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mhenodau 3 a 4 o'n [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardal yr Heddlu](#)

2.5 Dylai eich cynllun prosiect gynnwys manylion am sut y byddwch yn ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid a sut y byddwch yn rheoli'r broses enwebu.

2.6 Efallai y bydd nifer sylweddol o bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid newydd neu lai profiadol, sy'n llai cyfarwydd ag arferion a phrosesau sefyll etholiad ac y bydd angen eich cymorth arnynt i allu cymryd rhan yn effeithiol. Bydd hyd yn oed y rhai mwy profiadol yn brin o brofiad o ran sefyll etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o ystyried bod yr etholiadau hyn yn gymharol newydd o hyd. Felly, mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid cymaint â phosibl fel eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i sefyll etholiad a bod ganddynt hyder bod y prosesau yn cael eu rheoli'n dda.

2.7 Er enghraifft, rhaid i bob ymgeisydd wybod yr hyn sydd angen iddo ei wneud er mwyn sefyll etholiad, beth yw'r terfynau gwario, sut y gall gael

gafael ar y gofrestr etholiadol a beth yw'r cyfyngiadau o ran defnyddio'r gofrestr. Un anhawster sy'n debygol o wynebu Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu yw nad yw'r sawl sy'n bwriadu sefyll etholiad bob amser yn cysylltu â staff etholiadau cyn cyflwyno eu papurau enwebu. Felly, bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo argaeledd gwybodaeth a sesiynau briffio i bob ymgeisydd ac asiant cyn iddynt gwblhau a chyflwyno eu papurau enwebu.

2.8 Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu er mwyn pennu pa wybodaeth am brosesau lleol y bydd ei hangen arnoch i'w rhannu ag ymgeiswyr ac asiantiaid yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a chytuno ar y ffordd orau i'r wybodaeth hon gael ei rhannu.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), dylech sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy sicrhau y rhoddir canllawiau ysgrifenedig iddynt.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi sicrhau bod canllawiau ysgrifenedig ar waith i'w rhoi i ymgeiswyr.

Briffiadau

2.9 Dylech sicrhau y cynigir sesiwn friffio ar y prosesau penodol sy'n berthnasol i'r etholiad y maent yn ei sefyll, gan gynnwys trefniadau lleol, i ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol. Dylai'r sesiynau briffio ddarparu ar gyfer y ffaith nad yw rhai pobl o bosibl yn gwybod llawer, os o gwbl, am reolau na gweithdrefnau etholiad neu nad ydynt wedi ymwneud ag etholiadau ers peth amser, a dylent hefyd ystyried y ffaith mai dim ond yr ail etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a drefnwyd yw'r etholiadau ym mis Mai 2015.

2.10 Er y dylech wahodd pob darpar ymgeisydd i sesiwn friffio cyn y cyfnod enwebu neu ar ddechrau'r cyfnod enwebu, gallech ddewis cynnal sesiwn friffio ychwanegol ar ôl i'r rhestr o ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad gael ei chadarnhau ar ôl i'r broses enwebu gau.

2.11 Dylai pob sesiwn friffio amlygu pwysigrwydd dilyn rheolau'r etholiad.



I gael rhagor o ganllawiau ar yr hyn y dylai'r sesiwn neu sesiynau briffio ei gwmpasu, gweler Pennod 6 o'n [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#).

2.12 Dylai eich sesiwn neu sesiynau briffio hefyd amlygu unrhyw drefniadau diogelwch sydd wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymgynghoriad â'r heddlu. Efallai y byddwch am wahodd eich pwynt cyswllt unigol yn yr heddlu i fynychu unrhyw sesiynau briffio, neu ddarparu deunydd ysgrifenedig y gallwch ei roi i ymgeiswyr ac asiantiaid.

2.13 Rydym hefyd wedi llunio cyflwyniad templed ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y gallwch ei ddefnyddio ac sydd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan yn [Gymraeg](#) ac yn [Saesneg](#).

2.14 Ymhellach i Bennod 6 ein [canllawiau cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#), dylech hefyd gydweithio â Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol) yn eich ardal heddlu er mwyn pennu p'un a ddylent gynnig sesiynau briffio yn eu hardal bleidleisio a chytuno ar gynnwys unrhyw sesiynau briffio o'r fath, a allai gynnwys eu trefniadau lleol, fel manylion anfon ac agor pleidleisiau post a'r prosesau dilysu a chyfrif.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant etholiadol ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi drefnu sesiynau briffio a pharatoi adnoddau briffio.

Rhoi gwybodaeth am brosesau etholiadol

2.15 Dylech sicrhau y caiff pob ymgeisydd ac asiant etholiadol ganllawiau ysgrifenedig ar y broses etholiadol, gan gynnwys trefniadau lleol. Fel y nodir ym Mhennod 6 o'n [Canllawiau cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#), dylech gydweithio â Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol) yn eich ardal heddlu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i ymgeiswyr yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu am unrhyw brosesau y dylid eu cynnal yn lleol, fel agor pleidleisiau post a'r cyfrif. Dylai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn da bryd er mwyn galluogi ymgeiswyr ac asiantiaid i weithredu arni.

2.16 Diben darparu canllawiau ysgrifenedig yw sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn gallu cael gafael ar ganllawiau awdurdodol a chynhwysfawr er gwybodaeth unrhyw bryd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn etholiad. Nid oes rhaid i ganllawiau ysgrifenedig o'r fath gael eu llunio ar ffurf copi caled bob tro - mewn rhai achosion gall fod yn briodol rhoi dolen i ymgeiswyr ac asiantiaid lle gallant ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ar-lein - a mater i chi fydd sicrhau, ymhob achos, y gall ymgeiswyr ac asiantiaid gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd a gwneud beth bynnag sydd ei angen i hwyluso hyn.

Pecynnau enwebu


2.17 Dylech baratoi pecyn enwebu ar gyfer unrhyw un sy'n mynegi diddordeb mewn sefyll etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.



Rydym wedi llunio set o [bapurau enwebu](#) ar gyfer sefyll etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sydd eu hangen ar gyfer enwebiad.

2.18 Dylai'r pecyn enwebu gynnwys y canlynol:

- ffurflen enwebu
- ffurflen cyfeiriad cartref
- ffurflen cydsynio i'r enwebu
- ffurflen i'r ymgeisydd (neu rywun ar ei ran) roi hysbysiad o benodiad asiant etholiadol
- ffurflenni i'r asiant etholiadol roi hysbysiad o benodiad is-asiantiaid
- ffurflenni ar gyfer yr ymgeisydd neu'r asiant etholiadol i hysbysu ynghylch penodi asiantiaid pleidleisio, asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid cyfrif
- tystysgrif awdurdodi er mwyn caniatáu i ymgeisydd sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig
- ffurflen i ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig ofyn am ddefnyddio arwyddlun
- manylion am sut y dylai'r ernes gael ei thalu, gan gynnwys dulliau o dalu a dderbynnir
- canllawiau ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantiaid yn cwmpasu agweddau allweddol ar y broses etholiadol, gan gynnwys cymhwyso ac anghymwysu ar gyfer etholiad, y broses enwebu, beth y dylid ac na ddylid ei wneud wrth ymgyrchu, cael gafael ar drafodion etholiadol a'r hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan
- manylion am sut i gael copi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau'r pleidleiswyr absennol ar gyfer pob ardal bleidleisio yn ardal yr heddlu, a ffurflenni i wneud y fath geisiadau ynghyd â gwybodaeth am ble i anfon y ceisiadau hyn
- gwybodaeth am derfynau gwariant ymgeiswyr yn yr etholiad a chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar wariant a rhoddion
- gwybodaeth am drefniadau lleol
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall



Mae canllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar ein gwefan yn: www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent/police-and-crime-commissioner-elections.

Canllawiau ar derfynau gwario

2.19 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddilyn rheolau penodol o ran faint y gallant ei wario, pwy y gallant dderbyn rhoddion ganddynt, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gofnodi ar ôl yr etholiad.

2.20 Dylech sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y terfyn gwariant, ffurflenni gwariant a datganiadau er mwyn eu galluogi i fodloni gofynion adrodd.

2.21 Mae'r Comisiwn wedi llunio canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ar [wariant a rhoddion mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#) y gallwch eu defnyddio i roi gwybodaeth am ffurflenni gwariant a datganiadau i ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd.

Y gofrestr etholwyr

2.22 Mae'n ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ardal yr heddlu roi'r cyfryw gopïau o'r gofrestr etholwyr i chi ag y bydd eu hangen yn rhesymol arnoch at ddibenion etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

2.23 O ran enwebiadau, bydd angen i chi gael mynediad at y cofrestrau llywodraeth leol ar gyfer pob ardal bleidleisio o fewn ardal yr heddlu er mwyn gwirio a yw'r llofnodwyr yn ddilys ac a yw'r llofnodwyr ond wedi llofnodi un ffurflen enwebu o fewn ardal yr heddlu. Mae Pennod 6 o'r [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#) yn nodi opsiynau ar gyfer rheoli hyn yn ymarferol a'r ystyriaethau ymarferol a ddylai fod yn gymwys wrth wneud eich penderfyniad.

2.24 Gall ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd wneud cais ysgrifenedig am gopi o'r gofrestr lawn a rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer pob ardal bleidleisio o fewn ardal yr heddlu lle mae'n sefyll at ddibenion etholiadol.



Ceir rhagor o fanylion ar pan fydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd yn [Rhan 2a](#) a [Rhan 2b](#) o'n canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.

2.25 Fel y nodir ym Mhennod 6 o'r [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#), er mai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob ardal bleidleisio sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am dderbyn ceisiadau a darparu cofrestrau i ymgeiswyr, dylech gytuno â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gam cynnar er mwy penderfynu ar y ffordd orau o sicrhau y gellir darparu cofrestrau i bob ymgeisydd yn y fath fodd ag y bydd ganddynt fynediad amserol a hawdd atynt. Pa drefniadau bynnag a rowch ar waith dylid eu cyfleu mewn ffordd glir i ymgeiswyr a'u hasiantiaid er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar y cofrestrau a'u defnyddio wedyn i ymgyrchu a chael y llofnodwyr angenrheidiol.

2.26 Mae'r Comisiwn wedi llunio ffurflenni cais templed ar gyfer [cofrestrau etholiadola rhestrau o bleidleiswyr absennol](#) y gall ymgeiswyr eu defnyddio. Mae'n rhaid i'r cofrestrau gael eu darparu ar ffurf data oni ofynnir yn benodol am gopi argraffedig.



Ceir gwybodaeth fanwl am fynediad a chyflenwi'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o bleidleiswyr absennol i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol cofrestredig (a all ofyn am gopi ar unrhyw adeg) ac eraill yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#) o'n canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Anghenion mynediad i ymgeiswyr

2.27 Dylech gofio bod gan ymgeiswyr ac asiantiaid o bosibl anghenion mynediad penodol, ac felly efallai y bydd angen unrhyw wybodaeth neu ganllawiau arnynt a luniwyd ar ffurf print bras neu fformat arall, megis Braille neu sain, neu mewn iaith heblaw Cymraeg yng Nghymru, neu Saesneg.

3 Y broses enwebu yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

3.1 Rhydd y bennod hon ganllawiau ar weinyddu'r broses enwebu yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer yr ymgeisydd y mae cwestiynau ynghylch cymhwysedd neu anghymhwysedd ac ni ddylech roi cyngor ar faterion o'r fath. Dylid cyfeirio'r ymgeisydd at [ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#) yn y lle cyntaf. Os oes ganddo unrhyw bryderon pellach, dylid ei gyngori i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

Ffurflenni enwebu

3.2 Dim ond os byddwch wedi derbyn y ffurflenni canlynol wedi eu llenwi ac ernes o £5,000 erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. 4pm ar 7 Ebrill 2016), y tybir bod ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys (gweler paragraffau **3.110** i **3.114**)⁴:

- y ffurflen enwebu
- ffurflen cyfeiriad cartref
- caniatâd i enwebu

3.3 Er mwyn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn <http://search.electoralcommission.org.uk> a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru (os yw'r ymgeisydd yn sefyll mewn ardal yr heddlu yng Nghymru) neu Loegr (os yw'r ymgeisydd yn sefyll mewn ardal yr heddlu yn Lloegr), a bydd hefyd angen i'r ymgeisydd gyflwyno'r canlynol⁵:

- tystysgrif awdurdodi, sy'n awdurdodi defnyddio enw cofrestredig y blaid neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid
- cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid (os dymunir gwneud hynny)

3.4 Nid oes yn rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio'r ffurflen enwebu a luniwyd gennych chi, ar yr amod bod eu ffurflenni enwebu fel y'u rhagnodir.

3.5 Dim ond yn Gymraeg neu Saesneg y gellir llunio ffurflenni enwebu, ac nid mewn unrhyw ieithoedd neu fformatau amgen. Fodd bynnag, mae'n

ofynnol i chi yn ôl y gyfraith baratoi ffurflenni enwebu i'w llofnodi os bydd rhywun yn gwneud cais am hynny.

3.6 Mae'r Comisiwn wedi llunio set o [bapurau enwebu](#), sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sy'n ofynnol ar gyfer enwebu y gallwch eu rhoi i ymgeiswyr.

Gwiriadau anffurfiol

3.7 Dylech sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu pob ymgeisydd gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol.

3.8 Dylid rhoi cyfle cyfartal i bob ymgeisydd allu cael gwiriad anffurfiol. Cynllunnir gwiriadau anffurfiol i helpu ymgeiswyr i gymryd rhan effeithiol yn y broses etholiadol fel na fydd unrhyw wallau a wneir ganddynt wrth gwblhau'r gwaith papur yn golygu na chaiff etholwyr gyfle i bleidleisio dros yr ymgeisydd hwnnw, os yw hynny'n bosibl. Dylech ystyried sut rydych yn mynd i reoli'r broses hon, er enghraifft drwy roi system apwyntiadau ar waith.

3.9 Wrth gynnal gwiriad anffurfiol dylid nodi'n glir bod y papurau enwebu yn cael eu hystyried yn anffurfiol. Ar ddiwedd y gwiriad anffurfiol, dylech gynnig dychwelyd y papurau enwebu os oes problem wedi ei nodi. Os na nodwyd unrhyw broblemau, dylech gynnig eu derbyn yn ffurfiol.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu pob ymgeisydd ac asiant gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith ar gyfer gwirio papurau enwebu ymgeiswyr ac asiantiaid yn anffurfiol.

Cyflwyno papurau enwebu

Adeg cyflwyno

3.10 Gallwch dderbyn papurau enwebu rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016)⁶.

3.11 Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. 4pm ar 7 Ebrill 2016). Ni ellir symud nac ymestyn y terfyn amser hwn am unrhyw reswm⁷.

3.12 Pennir bod y papurau enwebu wedi eu cyflwyno pan fyddant wedi eu cyflwyno, â llaw pan fydd hynny'n ofynnol, yn y lle a nodir yn yr hysbysiad etholiad.

3.13 Nid os angen trefnu apwyntiad i gyflwyno papurau enwebu. ffiner yr ardal Fodd bynnag, dylech ystyried sut rydych yn mynd i reoli'r nifer bosibl o

enwebiadau a ddaw i law. Gallai hyn gynnwys cynnig apwyntiadau ar gyfer gwiriadau anffurfiol a chyflwyno'r papurau enwebu yn ffurfiol.

3.14 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod ei bapurau enwebu yn cael eu cyflwyno yn y ffordd gywir ac ar amser. Os nad yw set gyflawn o bapurau enwebu a'r ernes wedi eu cyflwyno erbyn yr amser hwnnw, nid yw'r enwebiad wedi ei wneud sy'n golygu na allwch ddyfarnu bod yr enwebiad yn ddilys nac yn annilys⁸.

Man cyflwyno

3.15 Dylid cyflwyno papurau enwebu yn y lleoliad a nodwyd gennych chi ar yr hysbysiad etholiad. Bydd yn rhaid i'r lleoliad a ddewiswch fod yn ardal yr heddlu⁹.

3.16 Dylai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu fod yn union, a dylai gynnwys unrhyw enw neu rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser.

3.17 Dylech ddarparu arwyddion clir o fynedfa'r adeilad i'r ystafell a neilltuyd ar gyfer cyflwyno'r papurau. Dylai'r ffordd hon, neu ffordd amgen wedi ei harwyddo'n briodol, fod yn hollol hygrych.

3.18 Dylech chi neu ddirprwy penodedig fod yn bresennol drwy gydol y cyfnod ar gyfer enwebiadau a'r cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau a dim ond chi a'ch staff ddylai ddelio ag enwebiadau. Dylech roi gwybodaeth i staff awdurdod lleol eraill neu i staff eraill yn yr adeiladau rydych yn eu defnyddio, megis staff derbynfa, am beth i'w wneud os bydd rhywun yn ceisio rhoi papur enwebu iddynt, gan nodi'n glir na ddylent ddelio â phapurau enwebu ac na ddylid cynnig eu derbyn ond yn hytrach eu cyfeirio atoch chi.

Pwy all gyflwyno papurau enwebu?

3.19 Dim ond nifer gyfyngedig o bobl a gaiff gyflwyno'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref. Dim ond y bobl ganlynol a gaiff gyflwyno'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref i ch¹⁰i:

- yr ymgeisydd
- y cynigydd neu'r eilydd fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu
- asiant etholiadol yr ymgeisydd, ar yr amod eich bod wedi derbyn hysbysiad o'i benodiad. Gellir cyflwyno'r hysbysiad o benodiad asiant etholiadol ar yr un pryd â'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref.

3.20 Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy a all gyflwyno'r caniatâd i enwebu, y dystysgrif awdurdodi a'r ffurflen gwneud cais am arwyddlun.

Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

3.21 Rhaid i'r ffurflen enwebu, y ffurflen cyfeiriad cartref a'r caniatâd i enwebu gael eu cyflwyno'n bersonol. Ni ellir eu postio, ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall.

3.22 Gellir cyflwyno'r dystysgrif awdurdodi a'r ffurflen gwneud cais am arwyddlun â llaw neu drwy'r post, ond ni ellir eu ffacio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall. Rhaid cyflwyno **fersiwn wreiddiol** pob dogfen a gwblhawyd. Byddai tystysgrif awdurdodi, er enghraifft, a anfonwyd fel atodiad e-bost i'w hargraffu, yn 'gopi o ddogfen' ac nid y ddogfen wreiddiol. Mae angen dull o awdurdodi er mwyn gwneud tystysgrif yn dystysgrif. Bydd hyn, yn ymarferol yn y rhan fwyaf o achosion, ar ffurf llofnod er mwyn ardystio bod y ffeithiau a nodwyd yn wir. Fodd bynnag, gallai fod ar ffurf sêl. Pa bynnag ddull awdurdodi a ddefnyddir, rhaid mai'r ddogfen wreiddiol yw'r un a dderbyniwch, yn hytrach na chopi o ddogfen¹¹.

3.23 Dylech gymryd camau i gyfleu'r gofynion sy'n ymwneud â chyflwyno papurau enwebu i'r holl ddarpar ymgeiswyr ac asiantiaid, a sicrhau y caiff y gofynion hyn eu hamlygu mewn unrhyw bapurau briffio neu ganllawiau a gaiff eu llunio gennych.

3.24 Unwaith y bydd papur enwebu wedi'i gyflwyno'n ffurfiol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau iddo (yn dibynnu ar eich pŵer i gywiro mân wallau). Ar adeg cyflwyno'r papurau yn ffurfiol dylech felly arnodi'r papur gyda'r dyddiad a'r amser cyflwyno, fel bod gennych gofnod o pryd y cyflwynwyd y papur yn ffurfiol. Os bydd ymgeisydd yn penderfynu wedi hynny ei fod am wneud unrhyw newidiadau, er enghraifft i'r disgrifiad, dylai dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl a chyflwyno papurau enwebu newydd o fewn yr amserlen statudol. Nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n caniatáu i lofnodwr dynnu ei lofnod yn ôl o bapur enwebu unwaith y bydd wedi'i gyflwyno.

Cyflwyno papurau enwebu lluosog

3.25 Nid oes unrhyw derfyn ar nifer y ffurflenni enwebu y gellir eu cyflwyno ar gyfer yr un ymgeisydd. Os caiff ymgeisydd ei enwebu'n ddilys drwy fwy nag un ffurflen, dylai'r ymgeisydd ddewis pa un o'r ffurflenni enwebu dilys (y ffurflen enwebu 'ddethol') y dylid ei defnyddio er mwyn i'r manylion gael eu hychwanegu at y datganiad o unigolion a enwebwyd a'r papur pleidleisio. Os na all yr ymgeisydd wneud hyn neu os nad yw'n gwneud hyn, yna mae'n rhaid i chi ddewis pa un o'r ffurflenni a gaiff ei defnyddio¹².

3.26 Os cyflwynir mwy nag un ffurflen enwebu ac mae un o'r ffurflenni enwebu'n annilys, caiff y papur hwnnw ei eithrio o'r ffurflenni y gall yr ymgeisydd neu chi eu dewis. Cyhyd â bod o leiaf un ffurflen enwebu yn ddilys, gellir enwebu'r ymgeisydd yn ddilys.

3.27 Pan fydd etholwr yn llofnodi unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynwyd, hyd yn oed os nad hon yw'r ffurflen enwebu ddethol, caiff ei atal rhag llofnodi ffurflen enwebu arall a bydd unrhyw enwebiad a gyflwynir yn ddiweddarach sy'n cynnwys ei lofnod fel llofnodwr yn annilys¹³.

Presenoldeb wrth gyflwyno papurau enwebu

3.28 Dim ond rhai pobl a gaiff fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu ac archwilio a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref. Gweler paragraff **3.133** i gael rhagor o wybodaeth am ddelio â gwrthwynebiadau¹⁴.

3.29 Ar ôl i ymgeisydd gyflwyno ei bapurau enwebu a'i ernes a'i fod yn sefyll ar sail enwebiad dilys, bydd hawl ganddo i fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu ymgeiswyr eraill a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref. Yn ogystal â'r ymgeisydd, bydd yr unigolion canlynol hefyd yn gallu bod yn bresennol a gwrthwynebu:

- ei asiant etholiadol
- ei cynigydd neu eilydd, fel y'i nodir ar y ffurflen enwebu

3.30 Os mai'r asiant etholiadol yw'r ymgeisydd ei hun, gall benodi rhywun arall i fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad. Os bydd ymgeisydd wedi cyflwyno mwy nag un ffurflen enwebu, dim ond y cynigydd a'r eilydd o'r ffurflen enwebu a ddewiswyd ganddo a gaiff fod yn bresennol. Os na ddewiswyd un, y cynigydd a'r eilydd o'r ffurflen enwebu a gyflwynwyd gyntaf a gaiff wneud hynny.

3.31 Ni chaiff unrhyw un arall archwilio papurau enwebu ar unrhyw adeg.

3.32 Caiff cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un unigolyn arall a ddewisir gan ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu, ond ni chânt archwilio na gwrthwynebu.

3.33 Dylech egluro i unigolion sy'n archwilio ffurflen cyfeiriad cartref sy'n gofyn i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd beidio â chael ei gyhoeddi mai dim ond yr unigolyn sy'n archwilio ddylai ddefnyddio'r ffurflen er mwyn:

- gwrthwynebu'r enwebiad
- cyflwyno deiseb etholiadol
- gwneud cwyn i'r heddlu bod unigolyn wedi gwneud datganiad anwir

ac y gall unrhyw ddefnydd arall dorri Deddf Diogelu Data 1998 ac felly y gallai rhywun sy'n defnyddio'r wybodaeth at unrhyw ddiben arall gael ei erlyn.

3.34 Dylech gadw'r papurau enwebu yn ddiogel a gadael i'r unigolion y rhoddwyd caniatâd iddynt archwilio'r ffurflenni enwebu a chyfeiriad cartref wneud hynny hyd at y dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebu'r papurau enwebu. Pan fydd y dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebu wedi mynd heibio, dylech storio'r papurau enwebu'n ddiogel am flwyddyn ar ôl yr etholiad, ar wahân i'r ffurflen cyfeiriad cartref, y mae'n rhaid ei dinistrio'r diwrnod gwaith nesaf yn dilyn cyfnod o 21 diwrnod calendr ar ôl datgan y canlyniad. Fodd bynnag, ni

ddyliid dinistrio'r ffurflen cyfeiriad cartref os oes deiseb neu achos cyfreithiol arall yn ymwneud â'r etholiad. Os felly, rhaid i chi aros tan y diwrnod gwaith nesaf ar ôl i achosion o'r fath ddod i ben cyn dinistrio'r ffurflen¹⁵.

Gofynion enwebu

3.35 Mae'r adran hon yn cynnwys esboniad o'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ar y papurau enwebu. Bwriedir iddo eich helpu i adolygu ac yn y pen draw benderfynu ar ddilysrwydd y papurau enwebu.

3.36 Dylech atgoffa unrhyw un sy'n cyflwyno'r papurau enwebu fod gwneud datganiad anwir ar bapurau enwebu yn drosedd. Os yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylech gyfeirio at y ffaith bod y drosedd hefyd yn gymwys os yw ymgeisydd wedi rhoi enw a ddefnyddir yn gyffredin nad ydynt mewn gwirionedd yn ei ddefnyddio'n gyffredin. Cewch rybuddio ymgeiswyr mai'r gosb am ddatganiad anwir yw dirwy anghyfyngedig a/neu ddedfryd o garchar o hyd at flwyddyn.

Ffurflen enwebu¹⁶

Enwau ymgeiswyr

3.37 Mae'n rhaid i enwau llawn yr ymgeisydd, yn ôl y gyfraith, gael eu rhestru ar y ffurflen enwebu, gyda'i gyfenw yn gyntaf wedyn ei holl enwau eraill yn llawn.

3.38 Er bod y ffurflen enwebu ragnodedig yn cynnwys colofn ar gyfer teitl yr ymgeisydd, nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgeiswyr roi hyn.

3.39 Dylid cynghori ymgeiswyr i beidio â chynnwys rhagddodiaid neu ôl-ddodiaid fel Mr, Mrs, Dr neu Cyng. yn y maes ar y ffurflen enwebu sy'n gofyn am ei enw llawn. Os caiff rhagddodiad neu ôl-ddodiad ei ddefnyddio fel rhan o'r enw gwirioneddol ni fyddai'r ffurflen enwebu yn annilys o ganlyniad i hynny, ond ni ddyliid trosglwyddo'r rhagddodiad na'r ôl-ddodiad i'r datganiad o unigolion a enwebir. Os bydd ymgeisydd wedi cyflwyno ffurflen enwebu gyda rhagddodiad neu ôl-ddodiad fel rhan o'i enw gwirioneddol, dylech hysbysu'r ymgeisydd a'i asiant na fydd yn ymddangos ar y datganiad o unigolion a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio na'r papur pleidleisio, ond nad yw hyn wedi effeithio ar ei enwebiad fel ymgeisydd.

3.40 Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd deitl, gall ddefnyddio hwn fel ei enw llawn. Er enghraifft, os mai enw gwirioneddol yr ymgeisydd yw Joseph Smith, ond mai ei deitl etifeddol yw Joseph Avon, gall ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel ei enw llawn

Enwau a ddefnyddir yn gyffredin

3.41 Pan fydd ymgeisydd yn defnyddio enw gwahanol i'w enw gwirioneddol yn fynych, gallant ofyn am gael defnyddio ei enw(au) cyffredin yn lle ei enw gwirioneddol.

3.42 Gall ymgeisydd ofyn am gael defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin. Er enghraifft, efallai mai 'Andy' yw'r enw cryno a ddefnyddir ar ei gyfer, yn lle ei enw llawn cyntaf sef 'Andrew'. Os felly, gall ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf cyffredin ar y ffurflen enwebu os byddai'n well ganddo fod yr enw hwnnw'n ymddangos ar y papur pleidleisio.

3.43 Caiff ymgeisydd hefyd ddefnyddio blaenlythrennau fel rhan o'u henw cyffredin os cânt eu defnyddio'n fynych mewn perthynas â nhw.

3.44 Fodd bynnag, ni chaiff ymgeisydd ddefnyddio ei enw cyntaf fel enw cyffredin fel mai dim ond ei enw cyntaf a'i gyfenw sy'n ymddangos ar bapur pleidleisio, a thrwy hynny ddileu ei enw canol. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod enw cyffredin yn un sy'n wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw arall. Mae hyn yn golygu na all enw cyntaf ar ei ffurf wreiddiol gael ei ddefnyddio fel enw cyffredin. Os bydd ymgeisydd yn dymuno defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin yna rhaid iddynt fod yn wahanol i'w enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu. Er enghraifft, yn achos Andrew John Smith, ni allai ddefnyddio Andrew Smith fel ei enw cyffredin, er y gallai ddefnyddio Andy Smith (os mai Andy oedd ei enw cyffredin).

3.45 Nid eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu a yw'r enw cyffredin a roddwyd yn 'enw' neu p'un a yw'n bodloni'r gofyniad cyfreithiol i fod yn wahanol i unrhyw enw arall a all fod ganddo. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i chi dderbyn beth bynnag y bydd ymgeisydd wedi'i nodi yn y blwch enw a ddefnyddir yn gyffredin ar ei olwg a'i dderbyn fel enw cyffredin yr ymgeisydd.

3.46 Yn ôl y gyfraith, yr unig seiliau sydd gennych ar gyfer gwrthod enw a ddefnyddir yn gyffredin yw'r rhai canlynol¹⁷:

- mae'n debygol y gall ei ddefnydd gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu
- mae'n aflan neu'n sarhaus

3.47 Yn ystod y cam archwilio anffurfiol, os cewch eich cyflwyno â ffurflen enwebu sydd wedi'i chwblhau mewn modd sy'n ymddangos i chi nad yw'r enw a ddefnyddir yn gyffredin yn wahanol i unrhyw enwau cyntaf neu gyfenwau eraill sydd gan yr ymgeisydd, dylech dynnu sylw'r ymgeisydd at ddiffiniad cyfreithiol enw a ddefnyddir yn gyffredin a nodi ei bod yn drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol ar ffurflen enwebu. Dylech hefyd nodi os na chaiff ffurflen enwebu ei chwblhau yn unol â'r gyfraith, y bydd yr ymgeisydd yn wynebu risg o gael ei herio os caiff ei ethol.

3.48 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod wedi cwblhau ei ffurflen yn unol â'r gyfraith a bod yn fodlon bod yr enw cyffredin a roddwyd yn enw a ddefnyddir yn gyffredin ganddo mewn gwirionedd.

3.49 Wrth roi cyngor anffurfiol, efallai yr hoffech dynnu sylw'r ymgeisydd at ein [canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#) ar enwau a ddefnyddir yn gyffredin. Mae'r tabl isod yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gyfuniadau amrywiol o enwau a ddefnyddir yn gyffredin a sut y byddai hyn yn effeithio ar ymddangosiad enw'r ymgeisydd ar y datganiad o unigolion a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio a'r papur pleidleisio:

Cyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd	Enwau eraill yr ymgeisydd yn llawn	Enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin	Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin	Enw i'w nodi ar y datganiad o unigolion a enwebwyd a'r hysbysiad pleidleisio	Enw i'w nodi ar y papurau pleidleisio
Etholwr	Ann	Elsie	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Elsie	PLEIDLEISIWR, Elsie
Etholwr	Ann	[Gwag]	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Ann	PLEIDLEISIWR, Ann
Etholwr	Ann	Elsie	[Gwag]	Etholwr, Elsie	ETHOLWR, Elsie

3.50 Os caiff y blwch ar gyfer enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin ei adael yn wag, yna bydd enwau cyntaf neu gyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd, yn dibynnu ar ba flwch ar gyfer enwau a ddefnyddir yn gyffredin a adawyd yn wag, yn mynd ar ddatganiad yr unigolion a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio ac ar y papur pleidleisio.

3.51 Dylech gynghori'r ymgeisydd bod y defnydd o enwau cyffredin ond yn gymwys i'r datganiad o unigolion a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio a'r papur pleidleisio. Dylai enw gwirioneddol yr ymgeisydd ymddangos ar unrhyw ddogfennau y mae'n ofynnol iddynt ddangos enw'r ymgeisydd, fel yr argraffnod a ffurflenni gwariant yr ymgeisydd.

3.52 Os byddwch yn gwrthod defnyddio enw cyffredin, ni fydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y ffurflen enwebu. Yn hytrach, effaith hyn fydd y bydd enw llawn yr ymgeisydd yn ymddangos ar y datganiad o unigolion a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio a'r papur pleidleisio. Dylid egluro hyn i ymgeiswyr ac asiantiaid ac mae'n rhaid i chi ysgrifennu at yr ymgeisydd yn nodi'r rhesymau dros wrthod caniatáu i'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio.

Llofnodwyr¹⁸

3.53 Mae'n rhaid i ffurflenni enwebu gynnwys arwydd o gefnogaeth i'r ymgeisydd gan 100 o etholwyr cofrestredig ar y gofrestr etholiadol llywodraeth leol ar gyfer ardal bleidleisio yn ardal yr heddlu. Gelwir y rhain yn llofnodwyr - y ddau gyntaf yw'r cynigydd a'r eilydd, tra bod 98 o etholwyr eraill yn cefnogi'r enwebiad.

3.54 Gall y cynigydd, eilydd a llofnodwyr eraill fod wedi'u cofrestru unrhyw le yn ardal yr heddlu ac ni chyfyngir ar nifer y llofnodwyr o unrhyw un ardal bleidleisio, e.e. gall y 100 fod wedi cofrestru mewn un ardal bleidleisio neu gall 20 fod wedi cofrestru mewn pum ardal bleidleisio wahanol.

3.55 Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i bob llofnodwr lofnodi'r papur enwebu yn y man priodol a rhaid i'w rif etholiadol gael ei roi yn y bylchau a ddarperir wrth ymyl ei lofnod, ynghyd â llythrennau adnabod y dosbarth etholiadol.

3.56 Mae'n rhaid i chi wrthod enwebiad os na lofnodwyd y ffurflen enwebu yn ôl y gofyn. Mae'n hanfodol y defnyddir y fersiwn gywir o'r gofrestr er mwyn sicrhau bod y llofnodwyr yn ddilys. Rhaid i lofnodwyr ymddangos ar y gofrestr llywodraeth leol ar gyfer ardal bleidleisio yn ardal yr heddlu sydd mewn grym ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad (h.y. y gofrestr a gyhoeddir ar 1 Mawrth 2016).

3.57 Ni ddylai etholwr lofnodi mwy nag un ffurflen enwebu mewn ardal yr heddlu yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Rhaid i unrhyw ffurflenni enwebu a gyflwynir wedi hynny sy'n cynnwys llofnod etholwr fel llofnodwr gael eu pennu'n annilys, hyd yn oed pan fydd y ffurflen enwebu ddiweddarach ar gyfer yr un ymgeisydd â'r ffurflen gynharach, neu os bydd y ffurflen enwebu gynharach ar gyfer ymgeisydd sydd wedi tynnu'n ôl neu farw ers hynny¹⁹.

3.58 Dylai fod gennych system gadarn ar waith er mwyn sicrhau na fydd unrhyw etholwr yn lofnodi mwy nag un ffurflen enwebu.

3.59 Mae Pennod 6 o'r [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#) yn nodi opsiynau ar gyfer rheoli hyn yn ymarferol a'r ystyriaethau ymarferol a ddylai fod yn gymwys wrth wneud eich penderfyniad.

3.60 Pa bynnag ddull a ddefnyddiwyd i reoli'r broses hon, dylid defnyddio copi caled o'r gofrestr a dylid defnyddio'r system rheoli etholiadol er mwyn lleihau'r risg y bydd llofnodwr sydd wedi lofnodi mwy nag un ffurflen yn cael ei gollu, a sicrhau bod y copi caled o'r gofrestr yn cael ei marcio â llaw pan gaiff enwebiadau eu cyflwyno'n ffurfiol.

3.61 Pan fydd ffurflen enwebu wedi'i chyflwyno'n ffurfiol, hyd yn oed os caiff ei phennu'n annilys yn hwyrach, bydd llofnodion yn dal i gyfrif tuag at yr un ffurflen y caiff y llofnodwr ei lofnodi.

3.62 Os caiff etholwr ei dynnu oddi ar y gofrestr yn ddiweddarach neu os bydd farw cyn yr etholiad (neu cyn i'r enwebiad gael ei gyflwyno hyd yn oed), bydd ei lofnod yn ddilys o hyd ac nid effeithir ar yr enwebiad.

3.63 Gall unigolyn a ddangosir ar y gofrestr fel rhywun sydd o dan 18 oed pan wneir yr enwebiad ond llofnodi ffurflen enwebu os bydd yn 18 oed ar neu cyn y diwrnod pleidleisio.

3.64 Gan fod yn rhaid i chi dderbyn y ffurflen enwebu ar ei golwg, mae'n rhaid i chi dderbyn mai llofnod yr unigolyn a restrwyd ar y gofrestr o dan y rhif etholiadol perthnasol yw'r llofnod ar y ffurflen enwebu, hyd yn oed os yw'r llofnod yn awgrymu enw arall. Gallwch dynnu sylw'r unigolyn sy'n cyflwyno'r papur at hyn os ydych yn pryderu, ond, mae'n rhaid i chi dderbyn y rhif etholiadol a'r llofnod ar eu golwg.

3.65 Dim ond y 100 llofnodwr cyntaf ar unrhyw bapur enwebu y gellir eu hystyried. Os caiff mwy o lofnodwyr eu cynnwys, ni ddylid ystyried unrhyw enwau dilynol o gwbl. Os bydd un o'r 100 llofnodwr cyntaf yn annilys, waeth

p'un a ychwanegwyd mwy o lofnodwyr i'r ffurflen enwebu ai peidio, mae'n rhaid ystyried bod yr enwebiad yn annilys o hyd²⁰.

3.66 Yn achlysurol gwneir camgymeriad gyda'r llofnodwyr ar ffurflen enwebu, a gellir croesi allan un neu fwy o'r enwau ar y ffurflen. Os caiff y llofnod a'r rhif etholiadol ar gyfer llofnodwr eu croesi allan yn glir, dylech ei anwybyddu a'i drin fel pe na bai'r rhes yn ymddangos o gwbl. Os gofynnir i chi, dylech gyngori y dylai unrhyw beth sydd wedi'i groesi allan fod yn glir, ac yn ddelfrydol, wedi'i lofnodi â llythrennau cyntaf enw. Ni ddylech groesi allan unrhyw gofnod. Os oedd y cofnod a oedd wedi'i groesi allan yn gofnod gan gynigydd neu eilydd, yna dylid nodi'r cynigydd neu'r eilydd newydd. Lle y bydd cofnod wedi'i groesi allan, mae'n rhaid i'r 100 llofnodwr cyntaf ac eithrio'r cofnod hwnnw fod yn ddilys o hyd er mwyn i'r enwebiad fod yn ddilys.

3.67 Ni all llofnodwyr dynnu llofnodion ar ffurflenni enwebu yn ôl, unwaith y byddant wedi'u rhoi. Os bydd llofnodwr yn cysylltu â chi i ddweud ei fod yn dymuno tynnu ei lofnod yn ôl, dylech ei hysbysu na chaniateir hyn yn ôl y gyfraith a bod y llofnod yn ddilys o hyd.

Defnyddio enwau pleidiau, disgrifiadau pleidiau ac arwyddluniau pleidiau

3.68 Ym mhob achos, er mwyn gallu defnyddio manylion adnabod plaid (h.y. enw, disgrifiad ac arwyddlun) rhaid bod y plaid wedi'i chofrestru ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a bod wedi'i rhestru'n plaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru (os yw'r ymgeisydd yn sefyll mewn un o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru) neu Loegr (os yw'r ymgeisydd yn sefyll mewn un o ardaloedd yr heddlu yn Lloegr)²¹.

3.69 Gall pleidiau gwleidyddol gofrestru hyd at 12 disgrifiad yn ddwyieithog.

3.70 Rhaid i chi sicrhau bod enw'r plaid neu'r disgrifiad a roddwyd ar y ffurflen enwebu wedi'i gofrestru ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a'i fod yn cyfateb iddynt yn llwyr. Os nad yw'n cyfateb, rhaid i chi wrthod yr enwebiad hwnnw. Hyd yn oed os yw plaid gofrestredig yn adnabyddus, mae'n hanfodol edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol i gael union fanylion y plaid fel y'u cofrestrwyd gyda'r Comisiwn.

3.71 At ddibenion cynnal llwybr archwilio clir ac yn achos unrhyw heriau yn y dyfodol, dylech argraffu copi o'r rhan berthnasol o [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) sy'n dangos y disgrifiadau ac enw'r plaid pan wnaed y penderfyniad.

3.72 Gall pleidiau gwleidyddol gofrestru hyd at dri arwyddlun hefyd.

3.73 Bydd ffeil Zip o ddelweddau arwyddluniau ar gael ar ein gwefan. Fodd bynnag, er bod y ffeil Zip yn adnodd a all gael ei ddefnyddio gan eich argraffydd i baratoi papurau pleidleisio, y wybodaeth ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a ddylai gael ei defnyddio i gadarnhau pa arwyddlun i'w argraffu ar y papurau pleidleisio.

Ychwanegiadau, addasiadau, dileadau a newidiadau mewn perthynas ag enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau plaid ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol

3.74 Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu y gall y gwaith o ddileu unrhyw ddisgrifiadau cofrestredig neu gyflwyno disgrifiadau newydd yn lle hen rai ddigwydd hyd at a chan gynnwys y diwrnod cyn dyddiad gwirioneddol cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer unrhyw etholiad penodol (noder nad hwn yw'r diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ond yn hytrach y diwrnod cyhoeddi ei hun). Ar ôl hynny, nid yw unrhyw newidiadau i ddisgrifiadau pleidiau neu achosion o ddileu unrhyw ddisgrifiadau pleidiau yn berthnasol ar gyfer yr etholiad hwnnw²².

3.75 Er enghraifft, os byddwch yn penderfynu cyhoeddi eich hysbysiad etholiad cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad yn ôl y gyfraith, mae'n bosibl y gellir cyflwyno enwebiad sy'n cynnwys disgrifiad plaid gofrestredig nad yw'n ymddangos mwyach ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol. Os cafodd y disgrifiad ei ddileu ar ôl i chi gyhoeddi eich hysbysiad etholiad ond cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad, nid yw'r broses o ddileu yn berthnasol i'ch etholiad ac mae'r 'hen' ddisgrifiad yn ddilys o hyd. Mewn unrhyw amgylchiadau o'r fath gallwch holi [swyddfa leol y Comisiwn](#) a yw'r disgrifiad a gyflwynwyd o'r plaid yn gymwys ar gyfer eich etholiad.

3.76 Dylech hefyd nodi y gall pleidiau gwleidyddol newid enw ac arwyddluniau cofrestredig eu plaid, ac ychwanegu unrhyw ddisgrifiad newydd os oeddent wedi cofrestru llai na 12 o ddisgrifiadau yn flaenorol, unrhyw bryd cyn i enwebiadau gau.

3.77 Pan fydd ymgeisydd yn ceisio cyflwyno papur enwebu sy'n cynnwys disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, dylech hysbysu'r ymgeisydd i beidio â chyflwyno'r papur yn ffurfiol, ond i'w dynnu'n ôl a'i gyflwyno unwaith y bydd y disgrifiad wedi'i gofrestru'n llwyddiannus.

3.78 Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno ei ffurflen enwebu gyda disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, mae'n rhaid i chi nodi bod yr enwebiad yn annilys ar y sail, pan wnaed y penderfyniad, nad oedd y disgrifiad a roddwyd yn cyfateb i unrhyw ddisgrifiad a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn. Efallai y byddwch am gysylltu â'r Comisiwn i gael cadarnhad nad yw disgrifiad wedi'i gofrestru eto cyn gwneud eich penderfyniad. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â [swyddfa leol y Comisiwn](#)²³.

3.79 Ar gyfer etholiadau mis Mai 2016, rydym yn gosod dyddiad cau gweinyddol o 22 Chwefror 2016 ar gyfer ceisiadau:

- i newid manylion adnabod plaid (enw, disgrifiadau ac arwyddluniau), ac
- i gofrestru pleidiau a manylion adnabod newydd (enw, disgrifiadau ac arwyddluniau).

3.80 Efallai na chaiff unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw eu prosesu mewn da bryd i fod yn weithredol ar gyfer etholiadau mis Mai 2016.

3.81 Er bod y Comisiwn yn anelu at ddiweddarau'r gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol erbyn 21 Mawrth 2016, gallai fod angen diweddarau'r gofrestr ar ôl y dyddiad hwnnw. Os caiff unrhyw newidiadau eu gwneud i fanylion adnabod plaid ar ôl y dyddiad hwnnw ond mewn da bryd i fod yn weithredol ar gyfer etholiadau mis Mai 2016, bydd y Comisiwn yn hysbysu Swyddogion Canlyniadau a'u staff drwy Fwletin Gweinyddu Etholiadau.



I gael y wybodaeth ddiweddaraf am bleidiau gwleidyddol, disgrifiadau cofrestredig ac arwyddluniau cofrestredig, dylech edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn yn <http://search.electoralcommission.org.uk>. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu [â swyddfa leol y Comisiwn](#).

Pa ddisgrifiadau y gellir eu defnyddio yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau?

3.82 Mae'r ddeddfwriaeth yn fanwl gywir ynghylch y defnydd o ddisgrifiadau. Caiff ymgeisydd ond ddefnyddio un o'r disgrifiadau canlynol²⁴:

- yng Nghymru, y gair 'Independent' a / neu 'Annibynnol'
- yn Lloegr, y gair 'Independent'
- enw cofrestredig plaid gwleidyddol gofrestredig
- un o'r disgrifiadau y mae'r blaid wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn

3.83 Yng Nghymru, caiff ymgeisydd ddefnyddio fersiwn Gymraeg, fersiwn Saesneg neu fersiwn ddwyieithog o enw'r blaid neu ddisgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn.

3.84 Os bydd ymgeisydd am ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad, rhaid iddo gael ei awdurdodi gan Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a awdurdodwyd i weithredu ar ei ran). Os bydd y disgrifiad ar y ffurflen enwebu yn cyfateb i ddisgrifiad ar ein cofrestr o bleidiau gwleidyddol neu os yw'n enw plaid gofrestredig, dylid cyflwyno tystysgrif awdurdodi, a lofnodwyd gan neu ar ran Swyddog Enwebu'r blaid, cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu²⁵.

3.85 Gall ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran mwy nag un blaid gofrestredig ddefnyddio disgrifiad ar y cyd sydd wedi'i gofrestru â'r Comisiwn. Os bydd ymgeisydd yn sefyll ar ran mwy nag un blaid gwleidyddol, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystysgrif awdurdodi gan bob un o Swyddogion Enwebu'r pleidiau (neu unigolion a awdurdodwyd i weithredu ar ei ran) erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.

3.86 Rhestrir disgrifiadau ar y cyd ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol ar y dudalen gofrestru ar gyfer y pleidiau perthnasol yn yr adran disgrifiadau, ac ym mhob achos caiff y disgrifiad ei ddilyn gan y geiriau '(Disgrifiad ar y Cyd gyda'r blaid xx)'. Enghraifft o hyn fyddai 'Ymgeisydd y Blaid Sgwâr a'r Blaid Gron (Disgrifiad ar y Cyd gyda'r Blaid Gron)', a gaiff ei restru ar dudalen y Blaid Sgwâr. Noder bod y geiriau mewn cromfachau at ddibenion esboniadol yn unig ac nad ydynt yn ffurfio rhan o'r disgrifiad.

3.87 Gallwch weld pwy yw'r Swyddog Enwebu ar gyfer plaid benodol drwy gyfeirio at gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, cyhyd â bod yr unigolyn sydd wedi cyflwyno'r dystysgrif yn honni ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hyn gan y Swyddog Enwebu cofrestredig, dylid derbyn y dystysgrif ar ei golwg.

3.88 Gall Swyddog Enwebu sefyll fel ymgeisydd. Os digwydd hyn, gall yr ymgeisydd, fel Swyddog Enwebu, awdurdodi ei ddisgrifiad ei hun. Gall unigolyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i gyflwyno tystysgrif awdurdodi hefyd fod yn ymgeisydd a chyflwyno tystysgrif ar gyfer ei enwebiad ei hun.

3.89 Gall tystysgrif awdurdodi alluogi'r ymgeisydd i wneud y canlynol:

- defnyddio disgrifiad penodol neu enw'r blaid, neu
- ddewis naill ai enw'r blaid neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid.

Ceisiadau am arwyddlun plaid

3.90 Os gwneir cais, gall ymgeisydd plaid gofrestredig ddewis cael arwyddlun cofrestredig o'r blaid y mae'n ei chynrychioli ar y papur pleidleisio. Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid bod ymgeisydd wedi'i awdurdodi i ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad heblaw am 'Annibynnol' (yng Nghymru) neu 'Independent'²⁶.

3.91 Gall ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran mwy nag un blaid gofrestredig sy'n defnyddio disgrifiad ar y cyd ddewis defnyddio arwyddlun cofrestredig un o'r pleidiau sydd wedi awdurdodi'r defnydd o'r disgrifiad. Nid oes darpariaeth ar gyfer cofrestru arwyddluniau ar y cyd gyda'r Comisiwn.

3.92 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd (neu rywun ar ei ran), nid yr asiant etholiadol na'r Swyddog Enwebu (oni bai eu bod yn gweithredu ar ran yr ymgeisydd), wneud y cais yn ysgrifenedig erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau fan bellaf.

3.93 Os oes gan y blaid fwy nag un arwyddlun cofrestredig, dylai'r ymgeisydd nodi pa un y mae am ei ddefnyddio. Os nad yw'r ymgeisydd yn nodi arwyddlun, neu os bydd y blaid gofrestredig yn newid neu'n tynnu'r arwyddlun o'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol ar ôl i'r papurau enwebu gael eu cyflwyno ond cyn i enwebiadau gau, dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd a gofyn iddo ddewis arwyddlun. Dylech hefyd ddweud wrtho os na fydd yn dewis arwyddlun penodol cyn i enwebiadau gau, na fyddwch yn gallu argraffu arwyddlun wrth ymyl ei enw ar y papur pleidleisio.

3.94 Gall yr ymgeisydd ddarparu copi eglurder uchel o'r arwyddlun i'w ddefnyddio wrth argraffu papurau pleidleisio, neu gall ofyn i chi lawrlwytho'r arwyddlun o wefan y Comisiwn. Rhaid i chi sicrhau y caiff pa gopi bynnag a ddefnyddir ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig.

3.95 Y cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu sy'n pennu maint mwyaf arwyddlun ar y papur pleidleisio. Wrth ychwanegu arwyddlun plaid ar bapur pleidleisio, ni ddylid newid siâp yr arwyddlun. Dylech sicrhau bod yr arwyddlun ar yr un ffurf

â'r arwyddlun cofrestredig - er enghraifft, peidiwch ag ymestyn arwyddluniau yn siapiau sgwâr os nad ydynt wedi'u cofrestru fel delweddau sgwâr ar ein gwefan, oherwydd byddai hyn yn newid eu hymddangosiad.

Ffurflen cyfeiriad cartref

3.96 Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau ffurflen cyfeiriad cartref, y mae'n rhaid iddi gael ei chyflwyno â llaw gan un o'r bobl a all gyflwyno'r ffurflen enwebu ac erbyn i'r enwebiadau gau. Nid yw'r ffurflen wedi'i rhagnodi ond nodir y wybodaeth sydd ei hangen yn ôl y gyfraith²⁷.

3.97 Ar y ffurflen cyfeiriad cartref, rhaid i'r ymgeisydd nodi ei enw llawn a chyfeiriad ei gartref.

3.98 Y cyfeiriad cartref:

- rhaid ei gwblhau'n llawn
- ni ddylai gynnwys talfyriadau
- rhaid mai cyfeiriad cartref cyfredol yr ymgeisydd ydyw
- ni ddylai fod yn gyfeiriad busnes (oni fydd yr ymgeisydd yn rhedeg busnes o'i gartref)

3.99 Os bydd unrhyw ran o fanylion y cyfeiriad cartref yn anghywir neu wedi'i hepgor, ni fydd yr enwebiad yn annilys yn awtomatig os yw'r disgrifiad o'r lle yn un a ddeallir yn gyffredin.

3.100 Os bydd yn dewis, gall ymgeisydd lofnodi datganiad ar y ffurflen cyfeiriad cartref yn nodi ei fod yn gofyn i gyfeiriad ei gartref beidio â chael ei gyhoeddi ar y datganiad o unigolion a enwebwyd. Ni fydd cyfeiriadau ymgeiswyr yn ymddangos ar y papur pleidleisio yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, waeth p'un a yw eu cyfeiriad yn ymddangos ar y datganiad o unigolion a enwebwyd.

3.101 Os bydd yr ymgeisydd yn dewis peidio â chyhoeddi ei gyfeiriad cartref ar y datganiad o unigolion a enwebwyd, rhaid iddo hefyd nodi ei fod wedi cofrestru ar y gofrestr etholiadol ar gyfer 'ardal etholiadol' yn ardal yr heddlu er mwyn i'w enwebiad fod yn ddilys. Rhaid iddo hefyd nodi'r ardal etholiadol y mae wedi cofrestru ynddi a llofnodi'r datganiad. Gall yr ardal etholiadol fod yn unrhyw etholaeth, adran neu ward yn ardal yr heddlu.

3.102 Mae'r Comisiwn wedi creu ffurflen cyfeiriad cartref fel rhan o'i [set o bapurau enwebu](#) y gallwch ei rhoi i ymgeiswyr ac asiantiaid.

3.103 Gall y bobl hynny y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu (fel y nodir ym mharagraff 3.28) archwilio a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen cyfeiriad cartref y ogystal â'r ffurflen enwebu atodol.

3.104 Erbyn i'r enwebiadau gau, os bydd mwy nag un ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys wedi gofyn i'w gyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, rhaid i chi ystyried os bydd gan ddau neu fwy ohonynt yr un enw

neu enw tebyg sy'n debygol o achosi dryswch. Os byddwch yn ystyried mai dyma yw'r achos, gallwch ychwanegu'r cyfryw fanylion o'u cyfeiriad cartref neu ffurflen enwebu i ddatganiad unigolion a enwebir fel sy'n briodol yn eich barn chi er mwyn lleihau'r tebygrwydd o ddrwsch²⁸.

3.105 Cyn i chi benderfynu pa fanylion y dylid eu cynnwys, os yw'n ymarferol i chi wneud hynny, rhaid i chi ymgynghori â'r ymgeisydd/ymgeiswyr dan sylw. Yna rhaid i chi eu hysbysu'n ysgrifenedig am y wybodaeth ychwanegol a gyhoeddir.

Caniatâd ymgeisydd i enwebu

3.106 Rhaid i ymgeiswyr hefyd ganiatáu i'w henwebiad yn ffurfiol a chyflwyno eu caniatâd erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu. Rhaid ei gyflwyno'n bersonol. Ni ellir ei bostio, ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall. Rhagnodir y ffurflen caniatâd i enwebu yn y rheolau etholiadol a rhaid i'r ymgeisydd ddefnyddio'r ffurflen hon neu ffurflen debyg²⁹.

3.107 Rhaid i ganiatâd yr ymgeisydd gynnwys:

- dyddiad geni'r ymgeisydd
- datganiad yn nodi ei fod yn ymwybodol o ddarpariaethau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac nad yw, hyd eithaf ei wybodaeth, wedi'i anghymhwyso rhag cael ei ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- datganiad yn nodi ei fod yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer sefyll

3.108 Ni chaiff ymgeiswyr lofnodi eu ffurflen ganiatâd yn gynharach nag 31 diwrnod calendr cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eu papurau enwebu (h.y. nid cyn 6 Mawrth 2016).

3.109 Mae'n rhaid i'r caniatâd hefyd gael ei dystio gan unigolyn arall. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all dystio'r cydsynio i'r enwebu. Rhaid i'r tyst roi ei enw a'i gyfeiriad ar y ffurflen ganiatâd.

Ernes

3.110 Er mwyn cael ei enwebu'n ddilys, rhaid i ymgeisydd neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd roi ernes o £5,000 i chi. Rhaid i'r swm hwn gael ei dalu erbyn i'r enwebiadau gau³⁰.

3.111 Os caiff yr ernes ei roi i chi gan rywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd, rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i chi, oni fydd wedi darparu'r wybodaeth hon eisoes fel rhan o'i hysbysiad o benodiad fel asiant etholiadol.

3.112 Mae gennych ryw faint o ddisgresiwn ynghylch sut y byddwch yn derbyn taliad yr ernes. Rhaid i'r taliad gael ei dderbyn pan gaiff ei wneud gan dendr cyfreithiol (arian parod mewn punnoedd Prydeinig yn unig) neu ddrafft

bancwr y DU. Gallwch wrthod derbyn drafft bancwr os nad ydych yn gwybod p'un a yw'r tynnwr yn cynnal busnes fel bancwr yn y Deyrnas Unedig.

3.113 Gallwch ddewis derbyn cyllid drwy siec cymdeithas adeiladu, cerdyn debyd neu gredyd neu drosglwyddo cyllid yn electronig os oes cyfleusterau ar gael i chi, er nad yw'n ofynnol i chi wneud hynny. Dylech dderbyn sieciau cymdeithas adeiladu os yw'n cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig. Dylech hefyd dderbyn taliadau bancwr sef gorchmynion a gyhoeddir gan fanc, sy'n gwarantu taliad i'r derbynnydd. Os byddwch yn penderfynu derbyn unrhyw rai o'r dulliau hyn dylech eu rhestru ar yr hysbysiad etholiad ac egluro unrhyw ofynion sydd gennych yn y pecyn enwebu.

3.114 Os oes ffi ynghlwm wrth ddull o dalu, gallwch ei throsglwyddo i'r ymgeisydd. Os felly, dylech egluro hyn ar yr hysbysiad etholiad a'r pecyn enwebu.

Penderfynu ar y ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref

3.115 Tybir bod ymgeisydd sy'n cyflwyno papurau enwebu sydd wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad cau gofynnol wedi'i enwebu oni phenderfynwch fod y ffurflen enwebu yn annilys neu nad yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn bodloni'r gofynion (neu fod yr ymgeisydd yn marw neu'n tynnu'n ôl)³¹.

3.116 Ceir cyfraith achosion sy'n egluro na ddylai Swyddogion Canlyniadau archwilio nac ymchwilio i unrhyw ymgeisydd ac nad yw eu dyletswydd yn mynd y tu hwnt i sicrhau bod y ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref yn gywir yn ôl pob golwg. Er enghraifft, fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, ni ddylech archwilio p'un a yw enw a roddwyd ar ffurflen enwebu yn ddilys. Bydd hefyd angen i chi ddiystyru unrhyw wybodaeth bersonol a all fod gennych eisoes am yr ymgeisydd. Bydd angen gwneud unrhyw benderfyniadau ar sail y ffurflen ei hun.

3.117 Rhaid i chi benderfynu ar ddilysrwydd ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol.

3.118 Yn ôl y gyfraith, yr unig sail sydd gennych ar gyfer penderfynu bod ffurflen enwebu yn annilys yw³²:

- nad yw manylion yr ymgeisydd neu'r rhai sy'n llofnodi'r ffurflen enwebu yn cyfateb i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, neu
- ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol

3.119 Mae'r disgrifiad a roddir ar y ffurflen enwebu yn rhan o 'fanylion yr ymgeisydd'. Felly, rhaid i chi bennu bod yr enwebiad yn annilys os:

- nad yw'r blaid wedi'i chofrestru ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) yn blaid sy'n ymladd etholiadau yng Nghymru (os yw'n sefyll

etholiad mewn ardal yr heddlu yng Nghymru) neu Loegr (os yw'n sefyll etholiad mewn ardal yr heddlu yn Lloegr), neu

- nad yw'r disgrifiad a ddefnyddiwyd wedi'i awdurdodi gan dystysgrif a lofnodwyd gan, neu ar ran, Swyddog Enwebu'r blaid, neu
- nad yw'r disgrifiad wedi'i gofrestru gan y Comisiwn

3.120 Yn eich barn chi, os nad yw'r ffurflen enwebu yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer disgrifiadau, rhaid i chi wneud penderfyniad i'r perwyl hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyflwyno'r ffurflen enwebu ac, mewn unrhyw achos, heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu (h.y. heb fod yn hwyrach na 4pm ar 8 Ebrill 2016).

3.121 Rhaid i chi bennu nad yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol os³³:

- nad yw'n nodi enw llawn yr ymgeisydd,
- nad yw'n nodi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn llawn, neu
- mae'n cynnwys datganiad na ddylid cyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd ond nad oes datganiad yn cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholiadol ar gyfer 'ardal etholiadol' o fewn ardal yr heddlu

3.122 Rydym wedi llunio [rhestr wirio enwebiadau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#) sy'n nodi'r hyn y bydd angen i chi ei ystyried a phethau penodol i gadw llygad amdanynt pan fyddwch yn penderfynu ar enwebiad.

3.123 Os na fyddwch wedi cael yr ernes o £5,000 sy'n ofynnol neu unrhyw bapurau enwebu gofynnol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, ni fydd yr ymgeisydd wedi'i enwebu'n ddilys. Yna ni fydd angen gwneud penderfyniad ffurfiol, ac ni ddylai ei enw ymddangos ar y datganiad o unigolion a enwebwyd.

Beth i'w wneud ar ôl gwneud eich penderfyniad ffurfiol

3.124 Pan fyddwch wedi penderfynu bod ffurflen enwebu yn ddilys, ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad, er y gellir ei herio ar ôl yr etholiad ar ffurf deiseb etholiadol³⁴.

3.125 Fodd bynnag, os byddwch wedi gwneud penderfyniad ffurfiol ond, o ganlyniad i wrthwynebiad, yn penderfynu wedyn y dylai'r ffurflen enwebu fod wedi'i phennu'n annilys mewn gwirionedd, cewch wneud penderfyniad pellach i'r perwyl hwn (gweler Paragraff **3.140** am ragor o ganllawiau ar beth i'w wneud yn y sefyllfa hon).

3.126 Os penderfynir bod ffurflen enwebu yn annilys, mae'n rhaid i chi nodi hynny ar y ffurflen enwebu, nodi'r rhesymau dros ei gwrthod a'i llofnodi.

3.127 Os penderfynir bod ffurflen enwebu'n annilys, mae'n bwysig cymryd camau i gysylltu â'r ymgeisydd a'r asiant cyn gynted â phosibl fel y gall gael y

cyfle pan fo hynny'n bosibl i gyflwyno ffurflen enwebu arall cyn i enwebiadau gau.

Cywiro mân wallau

3.128 Caniateir i chi, yn ôl y gyfraith, gywiro mân wallau a wneir ar ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref unrhyw bryd cyn i chi gyhoeddi'r datganiad o unigolion a enwebwyd. Mae hyn yn cynnwys cywiro gwallau mewn perthynas â rhif etholiadol unigolyn a gwallau amlwg wrth sillafu manylion ymgeisydd. Dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd neu'r asiant cyn diwygio unrhyw fân wallau³⁵.

3.129 Rhaid i chi ystyried canllawiau'r Comisiwn ar gywiro mân wallau.

Gwallau mewn rhifau etholwyr

3.130 Pan fydd rhif etholwr wedi'i nodi'n anghywir, gallwch ei ddiwygio os ydych yn fodlon bod gwall wedi'i wneud. Fodd bynnag, pan fydd y rhif etholwr wedi'i hepgor yn llwyr, nid yw hyn yn cyfrif fel gwall, a dylid gwrthod y ffurflen enwebu ar y sail nad yw'r rhif wedi'i gyflwyno ac felly nad yw'r manylion fel sy'n ofynnol.

Gwallau sillafu ym manylion ymgeisydd

3.131 Gall fod yn anoddach delio â gwallau sillafu 'amlwg', oherwydd efallai na fydd rhywbeth sy'n amlwg i un person yn amlwg i rywun arall. Dylid bod yn ofalus wrth arfer y pŵer hwn.

Gwallau mewn cyfeiriad cartref

3.132 Pan na fydd cyfeiriad cartref yn hollol gywir efallai y bydd angen ei gywiro. Yn ôl y gyfraith, nid yw gwallau mewn cyfeiriad cartref yn effeithio ar weithrediad llawn ffurflen enwebu, cyhyd ag y gellir deall y cyfeiriad yn gyffredin.

Gwrthwynebu ffurflenni enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref

3.133 Gall rhai pobl wrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref (gweler paragraffau **3.28**).

Gellir gwrthwynebu ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. ar 7 Ebrill 2016).

Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau³⁶

3.134 Bydd y cyfnod a ganiateir i wrthwynebu yn dibynnu ar pryd y cyflwynir y ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref.

Gwrthwynebiadau a gyflwynir hyd at 4pm ar 6 Ebrill 2016

3.135 Rhaid gwrthwynebu unrhyw ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref a gyflwynir hyd at ac yn cynnwys 4pm ar 6 Ebrill **rhwng 10am a chanol dydd ar 7 Ebrill 2016**.

Gwrthwynebiadau a gyflwynir ar ôl 4pm ar 6 Ebrill 2016

3.136 Rhaid gwrthwynebu unrhyw ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref a gyflwynir ar ôl 4pm ar 6 Ebrill 2016 rhwng **10am a 5pm ar 7 Ebrill 2016**. Rhaid gwrthwynebu ar adeg cyflwyno'r enwebiad neu'n syth wedyn.

Penderfyniadau ynglŷn â gwrthwynebiadau

3.137 Cewch ond ddatgan bod ffurflen enwebu yn annilys ar y seiliau cyfyngedig a nodir ym mharagraffau **3.118** a **3.119** uchod.

3.138 Cewch ond ddatgan bod ffurflen cyfeiriad cartref yn annilys ar y seiliau cyfyngedig a nodir ym mharagraff **3.121**.

3.139 Dylech ystyried unrhyw wrthwynebiad sy'n dod i law yn ystod y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwrthwynebu. Ni ddylech gynnal unrhyw ymchwiliad na chlywed unrhyw sylwadau sy'n cefnogi neu'n herio unrhyw ffaith neu ddatganiad a roddir ar y ffurflen enwebu neu'r ffurflen cyfeiriad cartref.

3.140 Dylech gyfyngu'r broses wrthwynebu i'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref. Pan fyddwch, o ganlyniad i wrthwynebiad, yn penderfynu y dylai enwebiad rydych eisoës wedi penderfynu arno fod wedi'i bennu'n annilys, rhaid i chi ddangos ar y datganiad o unigolion a enwebwyd nad yw'r ymgeisydd wedi'i enwebu'n ddilys mwyach ynghyd â'r rheswm pam nad yw wedi'i enwebu mwyach, a dylech hysbysu'r ymgeisydd³⁷.

Tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl

3.141 Mae'n bosibl i ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno hysbysiad wedi'i lofnodi i chi, a dystiwyd gan un tyst, erbyn 4pm ar yr 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. 4pm ar 7 Ebrill 2016)³⁸.

3.142 Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno â llaw i'r man cyflwyno papurau enwebu. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad tynnu enw yn ôl.

3.143 Ni ragnodir yr hysbysiad tynnu enw yn ôl mewn deddfwriaeth. Rydym wedi llunio [templed o hysbysiad tynnu enw yn ôl](#) y gallech ei roi i unrhyw ymgeisydd sy'n gofyn am un.

3.144 Os nad yw'r ymgeisydd yn y DU, gall dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl os cyflwynir hysbysiad tynnu enw yn ôl i chi wedi'i lofnodi gan y cynigydd ac wedi'i ategu gan ddatganiad ysgrifenedig yn nodi bod yr ymgeisydd dramor (wedi'i lofnodi hefyd gan y cynigydd) erbyn yr un dyddiad cau ar gyfer tynnu enw yn ôl (h.y. 4pm ar 7 Ebrill 2016).

3.145 Rhaid i fanylion unrhyw ymgeiswyr sy'n parhau i fod wedi'u henwebu erbyn diwedd y cyfnod ar gyfer tynnu enwau'n ôl gael eu hargraffu ar y papurau pleidleisio. Os nad yw ymgeisydd wedi tynnu ei enw yn ôl erbyn y dyddiad cau, bydd yn rhaid i'w fanylion gael eu cynnwys ar y papur pleidleisio.

Ar ôl i enwebiadau gau

3.146 Ar ôl i enwebiadau gau rhaid i chi gyhoeddi datganiad o unigolion a enwebwyd a hysbysiad pleidleisio. Rhoddir manylion am yr hyn y dylai'r hysbysiadau hyn ei gynnwys pan gaiff y ddogfen hon ei diweddarau ym mis Ionawr³⁹.

Enwebiad mewn mwy nag un ardal

3.147 Ni all ymgeisydd sefyll etholiad mewn mwy nag un etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a gynhelir ar yr un dyddiad. Rhaid i ymgeisydd sydd wedi'i enwebu'n ddilys ar gyfer mwy nag un ardal yr heddlu dynnu'n ôl o fod yn ymgeisydd ym mhob ardal namyn un, cyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu enw yn ôl. Os na fydd yn gwneud hyn, tybir ei fod wedi tynnu'n ôl o fod yn ymgeisydd ym mhob ardal yr heddlu⁴⁰.

Etholiadau diwrthwynebiad

3.148 Os mai dim ond un enwebiad dilys sy'n dod i law, neu fod pob enwebiad dilys namyn un wedi'i dynnu'n ôl yn gywir erbyn y dyddiad cau, ystyrir bod yr etholiad yn ddiwrthwynebiad. Os bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, rhaid i chi ddatgan pa ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys a gaiff ei ethol. Ni chynhelir pleidlais. Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad o enw a disgrifiad (os o gwbl) yr ymgeisydd a etholwyd. Rhaid i chi anfon copi o'r hysbysiad i'r Gweinidog ac i bob Swyddog Canlyniadau Lleol yn ardal yr heddlu, a dylech gymryd camau i sicrhau bod pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn cyhoeddi'r hysbysiad yn ei ardal bleidleisio⁴¹.

Dychwelyd ernesau

3.149 Os na ddangosir bod ymgeisydd wedi'i enwebu yn y datganiad o unigolion a enwebwyd, rhaid dychwelyd yr ernes cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r datganiad o unigolion a enwebwyd i'r sawl a wnaeth yr ernes neu ei gynrychiolydd personol.

Marwolaeth ymgeisydd⁴²

3.150 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, mae'r weithdrefn y dylid ei dilyn mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn dibynnu pryd y cewch eich hysbysu am farwolaeth yr ymgeisydd. Yr adeg y cewch brawf o farwolaeth yr ymgeisydd yw'r ffactor perthnasol, nid union amser y farwolaeth.

Prawf o farwolaeth a geir cyn i'r bleidlais agor

3.151 Os ceir prawf o farwolaeth ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys mewn etholiad a ymleddir cyn i'r bleidlais agor, caiff yr hysbysiad pleidleisio ei ddiddymu ac ni chynhelir y bleidlais. Rhaid cynnal etholiad newydd.

Prawf o farwolaeth a geir ar ôl i'r bleidlais agor a chyn i ganlyniad gael ei ddatgan

3.152 Os ceir prawf o farwolaeth ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys mewn etholiad a ymleddir ar ôl agor y bleidlais ond cyn datgan y canlyniad, rhoddir y gorau i'r bleidlais a rhaid cynnal etholiad newydd. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, oherwydd bydd y bleidlais wedi dechrau, yn ôl y gyfraith, bydd yn ofynnol i'r ddogfennaeth (h.y. papurau pleidleisio a gyflwynwyd a nas cyflwynwyd ac ati) gael ei dychwelyd at y Swyddog Canlyniadau perthnasol a'i selio yn y ffordd arferol.

3.153 Rhaid selio unrhyw bleidleisiau post a ddychwelir mewn pecynnau ac mae'n rhaid selio unrhyw amlenni nas agorwyd ar adeg yr hysbysiad o'r farwolaeth mewn pecynnau heb eu hagor.

Etholiad newydd

3.154 Os bydd angen cynnal etholiad newydd pan fo'r bleidlais wedi'i diddymu neu y rhoddwyd y gorau iddi oherwydd bod ymgeisydd wedi marw, byddwn ar gael i'ch helpu i nodi a chymryd y camau priodol.

4 Anerchiadau etholiadol

4.1 Gall pob ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddarparu anerchiad etholiadol i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu i'w gyhoeddi ar wefan a ddarperir gan y Gweinidog. Rhaid i anerchiad etholiadol ymgeisydd gael ei baratoi gan ei asiant etholiadol a'i gyflwyno i chi ar ffurf a ragnodir o dan y gyfraith erbyn terfyn amser a bennir gennyh⁴³.

4.2 Rhaid i chi, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, gyhoeddi hysbysiad o'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno anerchiadau etholiadol i chi⁴⁴. Er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael yr un profiad ac yn gweithio at yr un dyddiadau cau ni waeth ym mha ardal yr heddlu y maent yn sefyll, mae Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu yn etholiadau 5 Mai 2016 wedi cytuno i bennu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno anerchiadau etholiadol am hanner dydd ar y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau (h.y. canol dydd ar 7 Ebrill 2016). Mae'r dyddiad cau hwn wedi'i nodi yn ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid.

4.3 Dylech annog ymgeiswyr ac asiantiaid i gyflwyno'r anerchiad yn ffurfiol i chi cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu amser iddo gael ei ddychwelyd i'r asiant os oes angen ei ddiwygio neu ei gywiro ac er mwyn iddo gael ei ailgyflwyno erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau (h.y. erbyn hanner dydd ar 7 Ebrill 2016). Dylech gydnabod eich bod wedi derbyn anerchiad ymgeisydd er mwyn darparu llwybr archwilio clir.

4.4 Yn gryno, mae'r camau y mae'n rhaid i'r anerchiad etholiadol fynd drwyddynt cyn y gellir ei gyhoeddi ar wefan y Gweinidog fel a ganlyn:

- Rhaid iddo gael ei gyflwyno i chi i'w wirio⁴⁵
- Rhaid i chi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol (gweler yr adran 'Gofynion cyfreithiol anerchiad etholiadol' isod)⁴⁶
 - Os nad yw'n bodloni'r gofynion cyfreithiol rhaid i chi ei ddychwelyd at asiant yr ymgeisydd, gan wahodd cywiriadau a'i ailgyflwyno erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau (h.y. hanner dydd ar 7 Ebrill 2016, fel y cytunwyd arno gyda Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu)
 - Os yw'n bodloni'r gofynion cyfreithiol, rhaid i chi ei anfon ymlaen at y Gweinidog, ynghyd â datganiad yn nodi eich bod yn fodlon bod y cyfeiriad yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol. Yn ymarferol, dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol fel y gall y Gweinidog ei gyhoeddi ar y wefan ar ôl 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Oni fydd amgylchiadau arbennig yn berthnasol, y dyddiad cau i'r Gweinidog dderbyn anerchiad etholiadol yw hanner nos ar y 18fed diwrnod calendr cyn yr etholiad (yn etholiadau 5 Mai 2016, mae'r 18fed diwrnod calendr ar ddydd Sul, sy'n golygu ar gyfer yr etholiadau hyn, bod y dyddiad cau yn cael ei ymestyn i'r 17eg diwrnod calendr, h.y.

hanner nos ar 18 Ebrill 2016). Yna, bydd y Gweinidog yn dychwelyd copi o'r anerchiad atoch fel y bydd yn ymddangos ar y wefan. Rhaid i chi hefyd hysbysu'r ymgeisydd o'r dyddiad y cyflwynwyd yr anerchiad gennych ac unrhyw fân gywiriadau a wnaed.

- Rhaid i chi anfon fersiwn y wefan o'r anerchiad at asiant yr ymgeisydd, gan wahodd unrhyw sylwadau a chywiriadau erbyn dyddiad cau pellach a bennir gennych chi⁴⁷.
- Os caiff unrhyw sylwadau a/neu gywiriadau eu derbyn cyn y dyddiad cau a bennwyd gennych, rhaid i chi sicrhau bod y newidiadau a ddarparwyd yn gyson â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer anerchiadau. Yna, rhaid i chi ddychwelyd y copi o'r anerchiad etholiadol i'r Gweinidog cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eich dyddiad cau⁴⁸.
- Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod yn rhaid i'r Gweinidog gyhoeddi'r anerchiad etholiadol ar y wefan **cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad** (h.y. cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 4pm ar 7 Ebrill 2016)⁴⁹.

4.5 Rhaid i chi baratoi datganiad ar wahân i'w gynnwys ar y wefan y mae'n rhaid iddo gynnwys y rhestr o ymgeiswyr yn eich ardal heddlu yn y drefn y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio⁵⁰.

4.6 Gofynion cyfreithiol anerchiadau etholiadol

4.7 **Rhaid** i'r anerchiad etholiadol⁵¹:

- gael ei gyflwyno gennych chi erbyn y dyddiad cau rydych wedi'i gyhoeddi ac yn y ffurf a ragnodir
- cynnwys datganiad sy'n nodi iddo gael ei baratoi gan asiant etholiadol yr ymgeisydd
- cynnwys enw a chyfeiriad yr asiant etholiadol
- cael ei gwblhau yn Gymraeg neu Saesneg
- cael ei gyflwyno ar ffurf electronig oni bai eich bod yn fodlon bod rheswm da dros ei gyflwyno ar ffurf copi caled
- nodi enw'r ymgeisydd
- cynnwys mater sy'n ymwneud â'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn unig
- cydymffurfio â'r gofynion fformatio a nodir yn y ffurf a ragnodir
- cydymffurfio â'r cyfryw ofynion eraill y gall y Gweinidog eu nodi gyda'r bwriad o hwyluso'r broses o'i gynnwys ar y wefan
- gallu cael ei lunio ar ffurf copi caled

4.8 **Ni ddylai'r** anerchiad etholiadol⁵²:

- gynnwys unrhyw ddeunydd hysbysebu (heblaw am ddeunydd sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd fel ymgeisydd yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau)
- cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cyfeirio at unrhyw ymgeisydd arall er mwyn sefyll etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

- cynnwys unrhyw ddeunydd sydd wedi'i gynnwys gyda'r nod o sicrhau manteision masnachol yn eich barn chi
- cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n sarhaus neu'n anwedus yn eich barn chi
- cynnwys unrhyw ddeunydd y byddai'n debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd pe câi ei gyhoeddi neu ei ddsbarthu yn eich barn chi.
- bod yn fwy na'r terfyn o 300 o eiriau a nodwyd yn y ffurf a ragnodir (mae datganiad, enw a chyfeiriad yr asiant yn cyfrif at y terfyn o 300 o eiriau)

4.9 **Gall** yr asiant etholiadol⁵³:

- wrth gyflwyno anerchiad etholiadol hefyd gyflwyno cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg (fel sy'n briodol) sy'n gyfieithiad cyflawn a chywir (nid yw'r terfyn o 300 o eiriau yn gymwys i'r cyfieithiad hwn)
- cynnwys ffotograff o'r ymgeisydd ar yr amod nad yw'n dangos unrhyw un arall heblaw'r ymgeisydd ac nad yw'r mynd yn groes i'r rhestr uchod o ddeunydd na ddylai'r anerchiad ei gynnwys
- cynnwys cynrychioliad o arwyddlun cofrestredig, neu (fel sy'n briodol) un o arwyddluniau, plaid wleidyddol gofrestrdig, os caiff yr anerchiad etholiadol ei baratoi ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig
- pan gaiff anerchiad etholiadol ei baratoi ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig, gynnwys disgrifiad cofrestredig neu, os yw'r ymgeisydd wedi'i awdurdodi gan ddwy neu fwy o bleidiau, ddisgrifiad cofrestredig ar y cyd

Ystyried anerchiadau etholiadol

4.10 Rhaid i chi, ar gyfer pob anerchiad etholiadol a gyflwynir i chi erbyn y dyddiad cau a roddwyd i chi, ystyried a yw pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Dylech gynnig y cyfle i asiantiaid etholiadol sicrhau bod anerchiadau etholiadol ymgeiswyr yn cael eu gwirio yn gynnar fel y gellir nodi ac unioni unrhyw faterion cyn y dyddiad cau⁵⁴.

4.11 Os na fydd unrhyw anerchiad etholiadol yn cydymffurfio, rhaid i chi ei ddychwelyd i asiant etholiadol yr ymgeisydd, gan nodi pob achos rydych yn ystyried nad yw'n cydymffurfio. Gallwch wneud unrhyw fân gywiriadau sy'n angenrheidiol yn rhesymol yn eich barn chi er mwyn galluogi'r anerchiad etholiadol i gydymffurfio â'r gofynion.

4.12 Gall asiant etholiadol yr ymgeisydd ailgyflwyno'r anerchiad etholiadol unrhyw bryd cyn y dyddiad cau rydych wedi'i roi ar gyfer cyflwyno'r anerchiad etholiadol.

4.13 Pan fyddwch yn fodlon bod anerchiad etholiadol yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol, rhaid i chi anfon yr anerchiad etholiadol at y Gweinidog ynghyd â datganiad eich bod yn fodlon.

4.14 Rhaid i chi hysbysu'r ymgeisydd o'r dyddiad y cafodd ei anerchiad etholiadol ei anfon at y Gweinidog ac o unrhyw fân gywiriadau rydych wedi'u gwneud.

4.15 Yn ymarferol, dylid cyflwyno'r ddau ddatganiad i'r Gweinidog cyn gynted ag y bo'n ymarferol fel y gall y Gweinidog eu cyhoeddi ar y wefan ar ôl 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r anerchiadau etholiadol gan Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu yw hanner nos ar yr 18fed diwrnod calendr cyn yr etholiad (h.y. hanner nos ar 18 Ebrill 2016). Gall y Gweinidog ganiatáu i anerchiad etholiadol gael ei gyflwyno ar ôl yr adeg hon ond dim ond os yw'n fodlon bod rheswm da drws ei gyflwyno'n hwyr. Felly, dylech gynnwys y rhesymau dros gyflwyno unrhyw anerchiad etholiadol i'r Gweinidog ei ystyried yn hwyr⁵⁵.

Anfon copi terfynol yr anerchiad etholiadol ymlaen

4.16 Bydd y Gweinidog yn rhoi copi o bob anerchiad etholiadol i chi wrth iddo ymddangos ar y wefan. Rhaid i chi anfon copi o'r anerchiad etholiadol hwnnw i asiant etholiadol yr ymgeisydd ynghyd â hysbysiad⁵⁶:

- yn gwahodd yr asiant etholiadol i wirio cynnwys y copi yn erbyn y cynnwys a gyflwynwyd gan yr asiant etholiadol
- yn nodi'r amser diweddaraf i gyflwyno unrhyw sylwadau neu gywiriadau i chi y gall fod gan yr asiant etholiadol

4.17 Os byddwch yn derbyn unrhyw sylwadau ar anerchiad etholiadol neu gywiriadau i anerchiad etholiadol erbyn y dyddiad cau rydych wedi'i bennu at y diben hwn:

- rhaid i chi wneud y cyfryw newidiadau i'r copi o'r anerchiad etholiadol ag sy'n gyson â'r gofynion ar gyfer anerchiad etholiadol yn eich barn chi
- gallwch wneud unrhyw gywiriadau teipograffyddol sy'n angenrheidiol yn eich barn chi

4.18 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i chi ddychwelyd copi o'r anerchiad etholiadol at y Gweinidog gydag unrhyw newidiadau a wnaed (os o gwbl). Yna, rhaid i'r Gweinidog sicrhau y caiff yr anerchiad etholiadol ei gynnwys ar y wefan cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 7 Ebrill 2016).

Eich datganiad i'w gynnwys ar y wefan

4.19 Rhaid i chi hefyd baratoi datganiad i'w gynnwys ar y wefan, yn nodi dyddiad yr etholiad ac enwau'r ymgeiswyr yn y drefn y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio gyda'u disgrifiad (os o gwbl). Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys eich manylion cyswllt⁵⁷.

Ceisiadau am yr anerchiadau etholiadol wedi'u hargraffu ac mewn fformatau eraill

4.20 Rhaid i chi anfon unrhyw gais a gewch am fersiwn wedi'i hargraffu o'r anerchiadau etholiadol i'r Gweinidog. Bydd y Gweinidog, drwy Swyddfa'r Cabinet, yn trefnu bod copi wedi'i argraffu a rhestr o'r ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys yn cael eu hanfon at y sawl a wnaeth y cais⁵⁸.

4.21 Hefyd, gall y Gweinidog gymryd camau i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod yr anerchiadau etholiadol ar gael:

- mewn fformatau eraill fel print bras, braille a thâp sain
- yn swyddfeydd pob awdurdod lleol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr heddlu
- mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn ardal yr heddlu, ac
- mewn safleoedd eraill y gall y cyhoedd gael mynediad atynt fel arfer o fewn ardal yr heddlu

4.22 Dylech gysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal a chytuno ar broses o wneud hyn gyda hwy.

5 Asiantiaid yn yr etholiad

Yr asiant etholiadol

5.1 Rhaid i bob ymgeisydd gael asiant etholiadol, a rhaid i chi gael eich hysbysu o'i benodiad cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau tynnu enw yn ôl, sef 4pm ar yr 19fed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 7 Ebrill 2016). Rydym wedi llunio ffurflen ar gyfer hysbysu penodiad asiantiaid etholiadol fel rhan o'r set o [bapurau enwebu](#) i'w defnyddio mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd⁵⁹.

5.2 Gall ymgeisydd benodi ei hun fel ei asiant etholiadol. Os na chaiff asiant ei benodi erbyn yr amser uchod, tybir bod yr ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiadol ei hun⁶⁰.

5.3 Tybir bod ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun hefyd os bydd yn dirymu penodiad ei asiant, neu os bydd yr asiant yn marw, ac na chaiff asiant newydd ei benodi ar ddiwrnod y farwolaeth neu'r diwrnod canlynol.

5.4 Os bydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiadol ei hun, waeth p'un a yw wedi dod yn asiant am na wnaeth benodi un neu am ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi o'i benodiad ei hun, gall hefyd ddirymu ei benodiad ei hun a phenodi asiant newydd. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddo eich hysbysu yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau o'r fath⁶¹.

5.5 Rhaid i'r asiant etholiadol gael swyddfa, a rhaid i'r hysbysiad o benodiad nodi cyfeiriad y swyddfa y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill iddi⁶². Rhaid i gyfeiriad y swyddfa fod yn gyfeiriad y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddo, ac felly rhaid iddo fod yn gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post nac unrhyw flychau post tebyg.

5.6 Rhaid i leoliad y swyddfa fod o fewn ardal yr heddlu.

5.7 Yn aml, cyfeiriad cartref yr asiant etholiadol fydd cyfeiriad ei swyddfa, ond gallai hefyd fod yn gyfeiriad swyddfa leol y blaid wleidyddol neu swyddfa a sefydlwyd yn arbennig ar gyfer yr etholiad.

5.8 Pan fydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiadol ei hun am na wnaeth benodi unrhyw un arall, tybir mai'r cyfeiriad swyddfa yw'r cyfeiriad a roddir ar y datganiad o unigolion a enwebwyd neu, pan na roddir y cyfeiriad ar y datganiad hwnnw am fod yr ymgeisydd wedi nodi ar y ffurflen cyfeiriad cartref nad yw am i fanylion cyfeiriad ei gartref gael eu cyhoeddi, ystyrir mai'r cyfeiriad a roddwyd ar y ffurflen cyfeiriad cartref yw'r cyfeiriad hwnnw. Os bydd y cyfeiriad y tu allan i ardal yr heddlu, tybir mai'r cyfeiriad swyddfa yw cyfeiriad y cynigydd⁶³.

5.9 Os bydd ymgeisydd wedi nodi ar y ffurflen cyfeiriad cartref nad yw am i fanylion cyfeiriad ei gartref gael eu cyhoeddi, ond y bydd yn gweithredu fel ei asiant etholiadol ei hun am na wnaeth benodi unrhyw un arall, rhaid i chi gyhoeddi ei gyfeiriad cartref ar yr hysbysiad o asiantiaid etholiadol, er ei fod, fel ymgeisydd, wedi gofyn am iddo gael ei gadw'n breifat. Yr unig eithriad i hyn yw os bydd cyfeiriad yr ymgeisydd y tu allan i ardal yr heddlu, yna tybir mai cyfeiriad y cynigydd yw cyfeiriad y swyddfa.

5.10 Os bydd yr ymgeisydd yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi o'i benodiad fel ei asiant etholiadol ei hun, rhaid iddo roi cyfeiriad swyddfa o fewn ardal yr heddlu.

5.11 Pan gewch eich hysbysu o enw a chyfeiriad asiant etholiadol, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion hynny ac enw'r ymgeisydd cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r hysbysiad gael ei ddiweddarau os di-rymir penodiad asiant, neu os bydd asiant yn marw, a rhaid nodi manylion yr asiant newydd ar y fersiwn ddiwygiedig. Rhaid i chi ddarparu copi o'r hysbysiad i'r holl Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu er mwyn iddynt eu cyhoeddi'n lleol⁶⁴.

Is-asiantiaid

5.12 Gall asiant etholiadol benodi is-asiantiaid i weithredu ar ei ran.

5.13 Gall asiantiaid etholiadol benodi is-asiantiaid ar gyfer rhannau penodol o ardal yr heddlu, ar yr amod nad yw'r rhannau hynny yn gorgyffwrdd. Gall yr asiant benderfynu sut i rannu ardal yr heddlu, a gall yr is-rannau hyn groesi ffiniau ardaloedd pleidleisio⁶⁵.

5.14 Rhaid i swyddfa'r is-asiant fod yn yr ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi.

5.15 Caiff is-asiant wneud unrhyw beth y caiff yr asiant etholiadol ei wneud yn yr ardal lle y'i penodwyd. Fodd bynnag, yr unig ddigwyddiad etholiadol y caiff is-asiant fod yn bresennol ynddo yn ei rinwedd ei hun yw agor pleidleisiau post, ar yr amod bod hynny'n digwydd yn yr ardal y'i penodwyd i weithredu ynddi⁶⁶. Hefyd, caiff fod yn bresennol ar adeg dilysu a chyfrif, yn ogystal â chyfrifo'r canlyniad, ar yr amod eu bod yn cael eu cynnal o fewn yr ardal y'i penodwyd i weithredu ynddi a'i fod yn gweithredu yn lle'r asiant etholiadol.

5.16 Rhaid i'r asiant etholiadol roi hysbysiad ysgrifenedig i chi o enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa pob is-asiant a benodwyd ganddo a'r ardal lle y caiff weithredu erbyn y 5ed diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 27 Ebrill 2016). Dylech gynnwys ffurflenni ar gyfer hysbysu ynghylch penodi is-asiantiaid yn eich pecynnau enwebu. Rydym wedi llunio ffurflen ar gyfer hysbysu ynghylch penodiad is-asiantiaid fel rhan o'r set o [bapurau enwebu](#) i'w defnyddio mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau y gallech ei defnyddio at y diben hwn.

5.17 Caiff yr asiant etholiadol ddirymu penodiad is-asiant ar unrhyw adeg. Os bydd is-asiant yn marw neu os caiff ei benodiad ei ddirymu, gall yr asiant etholiadol benodi is-asiant newydd drwy roi datganiad ysgrifenedig i chi sy'n nodi enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal penodi'r is-asiant newydd.

5.18 Pan fydd enw, cyfeiriad, cyfeiriad cartref ac ardal penodi is-asiant wedi'i ddatgan i chi, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad o'r manylion hyn. Rhaid i chi anfon yr hysbysiad hwn i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn ardal yr heddlu i'w gyhoeddi'n lleol.

Asiantiaid eraill

5.19 Gall asiantiaid eraill gael eu penodi er mwyn arsylwi'r gwaith o agor pleidleisiau drwy'r post, y bleidlais a'r cyfrif ym mhob ardal bleidleisio. Rhaid rhoi hysbysiad o'r penodiadau hyn i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol fel sy'n briodol.

5.20 ⁶⁷Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau perthnasol yn eich ardal heddlu er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod y broses hon mor syml â phosibl i ymgeiswyr ac asiantiaid, a sicrhau y caiff y trefniadau eu cyfathrebu'n glir i'r ymgeiswyr a'u hasiantiaid.



Ceir rhagor o wybodaeth am y broses o benodi asiantiaid pleidleisio drwy'r post, asiantiaid pleidleisio ac asiantiaid cyfrif yn Rhan C - Gweinyddu'r etholiad neu yn ein canllawiau [ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#), [ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn unig yn Lloegr](#) ac [ar gyfer etholiadau cyfunol llywodraeth leol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr](#).

6 Hysbysiadau

Llunio a chyhoeddi hysbysiadau

6.1 Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiadau drwy eu gosod mewn man neu fannau amlwg yn ardal yr heddlu⁶⁸. Dylai hyn gynnwys swyddfeydd awdurdodau lleol, hysbysfyrddau, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill. Gellir rhoi'r hysbysiad mewn unrhyw ffordd arall addas yn eich barn chi.

6.2 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr dderbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac o fewn amser iddynt fwrw eu pleidlais, dylech sicrhau bod unrhyw hysbysiadau y byddwch yn eu cyhoeddi ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, fel drwy wefan eich awdurdod lleol.

6.3 Bydd hefyd angen i chi ystyried sut y byddwch yn darparu unrhyw hysbysiadau i'w cyhoeddi'n lleol gan y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu er mwyn sicrhau y cânt eu cyhoeddi mewn pryd. Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu er mwyn sicrhau bod yr hysbysiadau y mae'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi'n lleol hefyd ar gael.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am bleidleisio, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad a'r hysbysiad pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth am bleidleisio yn hawdd drwy wefan yr awdurdod lleol.



Ceir rhagor o arweiniad cyffredinol ar gyfathrebu gwybodaeth i etholwyr ar ein [Canllawiau cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#).

Cyfieithu a fformatau hysbysiadau

6.4 Mae'n ofynnol i chi sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyfieithu neu eu darparu mewn fformat arall, lle y credwch ei bod yn briodol gwneud hynny. Cewch eu paratoi⁶⁹:

- mewn Braille
- mewn ieithoedd heblaw am Saesneg (neu Gymraeg a Saesneg yng Nghymru)
- drwy ddefnyddio lluniau
- mewn fformat sain
- drwy ddefnyddio unrhyw ffordd arall o wneud y wybodaeth yn hygyrch

6.5 Ni ellir cynhyrchu'r papurau pleidleisio mewn unrhyw iaith heblaw Saesneg, neu, yng Nghymru, Cymraeg a Saesneg, na heblaw am yn y fformat rhagnodedig. Fodd bynnag, rhaid i'r copi wedi'i chwyddo o'r papur pleidleisio sydd i'w arddangos mewn gorsafoedd pleidleisio gynnwys y cyfarwyddiadau i bleidleiswyr wedi'u hargraffu ar frig y papur, a gellir cyfieithu'r geiriau hyn i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

Hysbysiad etholiad

6.6 Rhaid i chi gyhoeddi'r hysbysiad etholiad heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio (h.y. erbyn 30 Mawrth 2016)⁷⁰. Rhaid i chi hefyd roi copi o'r hysbysiad i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer pob ardal bleidleisio sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn eich ardal heddlu iddo gael ei gyhoeddi'n lleol⁷¹.

6.7 Mae'n **rhaid** i'r hysbysiad nodi'r canlynol⁷²:

- ble a phryd y gellir cyflwyno'r papurau enwebu, a ble y gellir cael gafael ar bapurau enwebu
- os byddwch wedi penderfynu derbyn taliadau electronig, y trefniadau ar gyfer talu ernesau yn electronig
- dyddiad y bleidlais os caiff yr etholiad ei ymladd
- y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer pleidleisiau absennol (yn cynnwys pleidleisiau brys drwy ddirprwy) gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad.

6.8 Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer cofrestru gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer etholiad

6.9 Dylai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu fod yn union, a dylai gynnwys unrhyw rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser. Dylid hysbysu'r holl aelodau o staff derbynfa yr adeilad ac adeiladau cysylltiedig eraill na ddylent dderbyn papurau enwebu.

6.10 Mae'r Comisiwn wedi datblygu [templed o hysbysiad etholiad](#) y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer yr etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael prosesau ar waith i brawfddarllen yr hysbysiad.

Datganiad am yr unigolion a enwebwyd

6.11 Mae'n ofynnol i chi gyhoeddi datganiad am y sawl a enwebwyd ar gyfer ardal yr heddlu erbyn 4pm ar y 18^{fed} diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. erbyn 4pm ar 8 Ebrill 2016)⁷³.

6.12 Rhaid i'r datganiad o unigolion a enwebwyd gynnwys y canlynol, ar gyfer pob ymgeisydd sydd wedi'i enwebu'n ddilys, yn ogystal â'r sawl sydd wedi tynnu ei enw yn ôl neu rydych wedi gwrthod ei enwebiad⁷⁴:

- enw
- cyfeiriad (neu, os yw wedi gofyn am i'w gyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, enw'r ardal etholiadol y mae wedi'i rhoi ar y ffurflen cyfeiriad cartref)
- disgrifiad (os o gwbl)
- yn achos y sawl nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, y rheswm dros hynny

6.13 Rhaid i enwau'r ymgeiswyr ar y datganiad gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor ar gyfer eu cyfenw; dyma sut y byddant hefyd yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Pan fydd gan ddau neu fwy o ymgeiswyr yr un cyfenw, trefn yr wyddor yr enwau eraill fydd yn penderfynu pa ymgeisydd a gaiff ei restru yn gyntaf.

6.14 Os bydd unigolyn wedi gofyn am i enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio ar ei ffurflen enwebu, rhaid i'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddangos ar y datganiad yn hytrach na'i enw gwirioneddol. Pan fydd ymgeisydd wedi gofyn am gael defnyddio cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, rhaid i safle yr ymgeisydd o ran trefn yr wyddor ar y datganiad o unigolion a enwebwyd (ac ar y papur pleidleisio) gyfeirio at ei gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin⁷⁵.

6.15 Fodd bynnag, os ydych wedi gwrthod y defnydd o unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin gan eich bod o'r farn ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anwedus neu'n sarhaus, rhaid i'r enw gwirioneddol gael ei gyhoeddi ar y datganiad o unigolion a enwebir yn lle'r enw a ddefnyddir yn gyffredin⁷⁶.

6.16 Dylech gael prosesau gwirio cadarn ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau yn y datganiad o unigolion a enwebwyd.

6.17 Rhaid i chi roi copi o'r datganiad i bob Swyddog Canlyniadau Lleol cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi'n lleol⁷⁷.

6.18 Rhaid i chi hefyd anfon copi o'r datganiad i'r Comisiwn Etholiadol. Byddwn yn cadarnhau drwy Fwletin lle y dylid anfon y datganiad⁷⁸.

Hysbysiad pleidleisio

6.19 Os ymleddir yr etholiad, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad pleidleisio ar gyfer ardal yr heddlu heb fod yn hwyrach na'r 6ed diwrnod gwaith cyn yr etholiad⁷⁹ (h.y. heb fod yn hwyrach na 26 Ebrill 2016). Rhaid i'r hysbysiad pleidleisio nodi⁸⁰:

- dyddiad ac oriau'r etholiad
- manylion yr ymgeiswyr sydd dal wedi'u henwebu'n ddilys, a rhaid i drefn yr enwau fod yr un fath ag yn y datganiad o unigolion a enwebwyd

6.20 Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i'r hysbysiad pleidleisio gael ei gyhoeddi'n lleol gan Swyddogion Canlyniadau Lleol. Fodd bynnag, dylech gymryd camau o hyd i sicrhau y caiff copi ei gyhoeddi ym mhob ardal bleidleisio, yn cynnwys gan sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau Lleol naill ai'n darparu dolen o'u gwefan i'r hysbysiad rydych wedi'i gyhoeddi, neu'n rhoi copi'n uniongyrchol ar eu gwefan fel y gall etholwyr ym mhob ardal bleidleisio gael gafael arno. Dylech hefyd roi copi i bob ymgeisydd ac asiant cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio

Cyfuno

Pan gaiff y bleidlais mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Swyddog Canlyniadau Etholaethol fydd yn gyfrifol am elfennau cyfunol y bleidlais, yn cynnwys cyhoeddi'r hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio. Lle y caiff y bleidlais ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr, y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol fydd yn gyfrifol am elfennau cyfunol y bleidlais, yn cynnwys cyhoeddi'r hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio. Rhaid i'r hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio gyfeirio at yr holl etholiadau a gynhelir⁸¹.

6.21 Rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn unig, a Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol neu Swyddogion Canlyniadau Etholaethol lle y caiff etholiadau eu cyfuno, gyhoeddi hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio ar gyfer eu hardal bleidleisio heb fod yn hwyrach na'r terfyn amser ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad pleidleisio (h.y. heb fod yn hwyrach na 26 Ebrill 2016). Rhaid iddynt roi copi o'r hysbysiad hwn i'r holl asiantiaid etholiadol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl rhoi'r hysbysiad a dylent hefyd roi copi i ymgeiswyr ac i chi. Dylai'r hysbysiad hefyd fod ar gael i arsylwyr achrededig ar gais⁸².

6.22 Fel rhan o'ch ystyriaeth ynghylch y ffordd orau o roi gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn modd cydlynol a chyson, dylech gysylltu â'r

Swyddogion Canlyniadau Lleol, Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol (fel y bo'n briodol) er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o gyflawni eu dyletswydd i ddarparu copïau o'r hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan eu galluogi i gael gafael yn hawdd ar y wybodaeth hon i'r ardal heddlu gyfan. Fel rhan o'ch trafodaethau, dylech ystyried p'un a gaiff yr hysbysiadau eu coladu a'u dosbarthu'n ganolog gennyh chi.

Hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio

6.23 Lle nad yw'r bleidlais yn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi'i chyfuno, mae'n ofynnol i chi baratoi hysbysiadau a'u rhoi i bob Swyddog Canlyniadau Lleol eu harddangos mewn bythau pleidleisio, a'r tu allan a'r tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Caiff cynnwys a fformatau'r hysbysiadau ar gyfer rhoi arweiniad i bleidleiswyr eu rhagnodi⁸³.

Cyfuno

Pan gaiff y bleidlais mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Swyddog Canlyniadau Etholaethol fydd yn gyfrifol am elfennau cyfunol y bleidlais, yn cynnwys darparu'r hysbysiadau i'w harddangos mewn bythau pleidleisio, a'r tu allan a'r tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Pan gaiff etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol yn Lloegr, y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol fydd yn gyfrifol am elfennau cyfunol y bleidlais, yn cynnwys darparu'r hysbysiadau i'w harddangos mewn bythau pleidleisio, a'r tu allan a'r tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Rhaid i'r hysbysiadau ddilyn y geiriad rhagnodedig yn y rheolau perthnasol ar gyfer etholiad cyfunol a byddant yn cyfeirio at yr holl bleidleisiau a gynhelir⁸⁴.

6.24 Rhaid i'r hysbysiad 'Sut i bleidleisio yn yr etholiad hwn' gael ei arddangos y tu allan a'r tu mewn i bob gorsaf pleidleisio. Mae'n ofynnol i'r hysbysiad 'Pleidleisio drwy roi croes [X] yn y blwch' (yn achos etholiad â thri ymgeisydd neu fwy) neu 'Pleidleisiwch ar gyfer UN YMGEISYDD YN UNIG drwy roi croes [X] yn y blwch wrth ymyl eich dewis' (yn achos etholiad â dau ymgeisydd yn unig), gael ei arddangos ym mhob bwth pleidleisio.

6.25 Gallwch hefyd ddarparu fersiynau o'r hysbysiadau hyn mewn ieithoedd neu fformatau amgen fel sy'n briodol yn eich barn chi ac, os bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cytuno, gellir arddangos y rhain hefyd y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf pleidleisio. Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn nodi beth yw'r gofynion o ran ieithoedd neu fformatau amgen yn eich ardal heddlu⁸⁵.

6.26 Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol (fel y bo'n briodol) yn eich ardal heddlu o ran pa wybodaeth am etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (fel y system pleidleisio a rôl Comisiynwyr yr Heddlu a

Throseddau) y dylai staff gorsafoedd pleidleisio ei rhoi i etholwyr. Dylai'r broses o ddarparu gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio, p'un a yw hynny'n rhagweithiol neu mewn ymateb i gwestiynau gan bleidleiswyr, fod yn gyson ar draws ardal yr heddlu. Felly, dylech ystyried pa un yw'r ffordd orau o sicrhau y caiff yr un wybodaeth ei rhoi i'r holl bleidleiswyr yn ardal yr heddlu, p'un a ydynt yn pleidleisio, a bod y Swyddogion Canlyniadau perthnasol a staff gorsafoedd pleidleisio yn cael canllawiau clir ynghylch pa wybodaeth y dylent neu na ddylent ei rhoi i bleidleiswyr.

Cardiau pleidleisio

6.27 Mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol), yn ôl y gyfraith, anfon cardiau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiadau etholiad. Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael yr un wybodaeth tua'r un pryd, waeth ble maent yn byw yn ardal yr heddlu, dylech gysylltu a chytuno â Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol) ar amseroedd darparu cardiau pleidleisio⁸⁶.

Paratoi papurau pleidleisio

6.28 Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n gyfrifol am baratoi papurau pleidleisio ar gyfer eu hardal bleidleisio, er y gallwch gymryd cyfrifoldeb am argraffu papurau pleidleisio mewn unrhyw ardal bleidleisio neu bob ardal bleidleisio drwy roi rhybudd i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol.



Ceir rhagor o ganllawiau ar gynllunio'r broses o baratoi papurau pleidleisio yn y [Canllawiau cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#).



[Mae Rhan C o'n canllawiau ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn unig yn Lloegr, ar gyfer etholiadau cyfunol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru](#) ac [ar gyfer etholiadau cyfunol llywodraeth leol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu](#) yn Lloegr yn cynnwys gwybodaeth am baratoi papurau pleidleisio, yn cynnwys y marc swyddogol ac argraffu manylion ymgeiswyr.

6.29 Oni fyddwch wedi cymryd y cyfrifoldeb am argraffu papurau pleidleisio Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl wedi mynd heibio, bydd angen i chi roi gwybodaeth

glir ac amserol i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol am fanylion terfynol y papur pleidleisio er mwyn eu galluogi i gadarnhau'r union fanylion gyda'u hargraffwyr a dechrau argraffu. Mae hyn yn cynnwys yr union faint a diwyg, a manylion yr ymgeisydd (h.y. enw, disgrifiad (os o gwbl) ac arwyddlun (os o gwbl)).

6.30 Dylech gael prosesau ar waith i sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn argraffu'r papurau pleidleisio yn gywir, gan gynnwys sicrhau bod manylion yr ymgeisydd ar y papur pleidleisio yn cael eu hatgynhyrchu'n gywir, a bod yr arwyddluniau cywir a math a maint cywir o ffont wedi'u defnyddio. Dylech ddarparu templed o bapur pleidleisio y gall Swyddogion Canlyniadau Lleol ei ddefnyddio fel sail ar gyfer argraffu'r papur pleidleisio yn ei ardal pleidleisio, ac y gall ei ddilyn wrth wirio proflenni argraffu a fersiynau terfynol y papurau pleidleisio. Dylech hefyd ystyried sefydlu proses i brawfddarllen papurau pleidleisio Swyddogion Canlyniadau Lleol eich hun cyn i'r broses argraffu ddechrau er mwyn bodloni eich hun y caiff yr holl bapurau pleidleisio yn ardal yr heddlu eu hargraffu'n gywir.

7 Prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau

7.1 Un o'r agweddau ar y broses etholiadol lle y byddwch yn awyddus i sicrhau bod cysondeb yw dilysu a chyfrif pleidleisiau a choladu'r canlyniad.



Ceir canllawiau i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau yn ein [Canllawiau Cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#).

7.2 Mae'r bennod hon yn rhoi rhagor o ganllawiau ar eich rôl mewn perthynas â'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau a'r broses o goladu canlyniadau.

Coladu'r canlyniad

7.3 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, mae'n rhaid i chi goladu cynnwys y datganiadau dilysu lleol a'r cyfansymiau cyfrif ar gyfer pob ardal bleidleisio, a chyfrifo a datgan y canlyniad cyffredinol ar gyfer ardal yr heddlu. Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, chi sy'n penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r broses hon yn eich ardal heddlu⁸⁷.



Ceir canllawiau ar gynllunio ar gyfer y broses o goladu canlyniadau yn y [Canllawiau Cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#).

7.4 Dylech gysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth gynllunio a datblygu'r broses ar gyfer coladu, gwirio a chymeradwyo cyfansymiau lleol, a rhoi arweiniad iddynt ar sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Dylech baratoi templedi o'r holl ddogfennau y bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol eu cwblhau yn ystod y broses o goladu cyfansymiau lleol (boed yn electronig neu ar ffurf copi caled) er mwyn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei chofnodi a'i throsglwyddo mewn ffordd gyson ac er mwyn darparu llwybr archwilio clir. Dylai unrhyw system a ddefnyddir gael trefniadau wrth gefn rhag ofn y bydd unrhyw broblemau neu fethiannau yn y system.

7.5 Dylech hefyd wneud trefniadau i brofi'r broses ac unrhyw systemau ategol rydych yn bwriadu eu defnyddio, a ddylai gynnwys o leiaf un ymarfer o'r broses yn cynnwys eich staff a Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff hwy er mwyn sicrhau bod pawb dan sylw yn deall sut mae'r broses yn gweithio ac yn gyfarwydd â hi a beth yw eu cyfrifoldebau, ac er mwyn sicrhau y gellir nodi a datrys unrhyw broblemau cyn y digwyddiad ei hun.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 3](#), bydd angen i chi ddatblygu proses ar gyfer derbyn a chyflwyno cyfansymiau lleol. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i reoli'r broses o goladu cyfansymiau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddir i Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Y broses goladu

7.6 Mae'r gyfraith yn nodi'r broses o goladu canlyniadau y mae'n rhaid ei dilyn. Mae'r camau allweddol fel a ganlyn:

- Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol) ddilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio ar gyfer eu hardal bleidleisio a llunio datganiad ar ganlyniad y broses ddilysu⁸⁸.
- Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol) hysbysu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu o'u ddatganiad dilysu⁸⁹.
- Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu goladu'r holl ffigurau dilysu ar gyfer ardal yr heddlu er mwyn canfod cyfanswm y papurau pleidleisio sy'n mynd ymlaen i'r cyfrif ar gyfer yr ardal heddlu gyfan⁹⁰.
- Pan gaiff y pleidleisiau eu cyfrif mewn lleoliad gwahanol i'r man y cynhaliwyd y broses ddilysu, gallwch gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Lleol i gynnal gweithdrefnau dilysu penodol pellach mewn perthynas â'r papurau pleidleisio a'r dogfennau sy'n ymwneud ag etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau⁹¹.
- Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol gyfrif y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a roddwyd i bob ymgeisydd. Pan fydd y cyfrif wedi'i gwblhau, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol rannu'r ffigurau â'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol. Gall ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol a'r asiantiaid cyfrif hynny sydd wedi cael awdurdod penodol i wneud hynny ofyn am ailgyfrif⁹².
- Pan fydd yr ymgeiswyr a'r asiantiaid wedi cael cyfle i wirio'r ffigurau (a phan fydd unrhyw ailgyfrif wedi'i gwblhau), rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol lunio datganiad o gyfansymiau lleol yn cynnwys nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a gaiff eu bwrw ar gyfer pob ymgeisydd a chyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd, a datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd wedi'u categoreiddio yn ôl y rheswm dros eu gwrthod⁹³.
- Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu o'r datganiad o gyfansymiau lleol⁹⁴.

- Cyn y gall y Swyddog Canlyniadau Lleol hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid o gynnwys y datganiadau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd a chyfansymiau lleol a chyhoeddi hysbysiad, rhaid iddo fod wedi cael awdurdod gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.
- Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu goladu'r cyfansymiau lleol ar gyfer ardal yr heddlu a dderbyniwyd gan Swyddogion Canlyniadau Lleol. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu dderbyn yr holl gyfansymiau lleol ar gyfer ardal yr heddlu, rhaid iddo gyfrifo cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd yn ardal yr heddlu.
- Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn cyfrifo a oes gan un ymgeisydd fwyafrif o'r pleidleisiau a gafodd eu cyfrif ac y gellir ei ethol.
- Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu rannu'r ffigurau perthnasol â'r asiantiaid etholiadol sy'n bresennol a rhaid iddo roi cyfle rhesymol iddynt fodloni eu hunain ynghylch cywirdeb y cyfrifiad. Gall asiant etholiadol wneud cais am ailgyfrif ond gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wrthod gwneud hynny os yw'r cais yn afresymol yn ei farn ef⁹⁵.
- Pan fydd yr asiantiaid wedi cael cyfle i wirio'r ffigurau (a phan fydd unrhyw ailgyfrifiad wedi'i gwblhau), rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ddatgan y canlyniad fel a ganlyn:

Gweithdrefn os mai dim ond dau ymgeisydd sydd

- Os yw'r ddau ymgeisydd wedi cael nifer gyfartal o bleidleisiau, rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu benderfynu ar hap pa un a gaiff ei ethol. Fel arall, caiff yr ymgeisydd sydd â'r mwyafrif o'r pleidleisiau ei ethol.
- Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ddatgan y canlyniad.

Gweithdrefn os oes tri neu fwy o ymgeiswyr a bod gan un ymgeisydd fwyafrif cyffredinol o'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf

- Caiff yr ymgeisydd sydd â'r mwyafrif o'r pleidleisiau ei ethol⁹⁶.
- Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ddatgan y canlyniad.

Gweithdrefn os oes tri neu fwy o ymgeiswyr ac nad oes unrhyw ymgeisydd yn cael mwyafrif cyffredinol o'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf:

- Os nad oes gan unrhyw ymgeisydd fwyafrif cyffredinol o'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf, rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu benderfynu pa ymgeiswyr y dylid tynnu eu henwau o'r cyfrif a gofyn i Swyddogion Canlyniadau Lleol gyfrif y pleidleisiau ail ffafriaeth ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n parhau i ymladd yr etholiad. Bydd y ddau ymgeisydd ar y brig (neu fwy os bydd nifer gyfartal o bleidleisiau) yn parhau i ymladd yr etholiad tra bod enwau'r gweddill yn cael eu tynnu o'r cyfrif⁹⁷.

- Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol gyfrif y pleidleisiau ail ffafriaeth perthnasol yn eu hardal bleidleisio ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n parhau i ymladd yr etholiad. Pan fydd yr ail gyfrif wedi'i gwblhau, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol rannu'r ffigurau â'r ymgeiswyr sy'n parhau i ymladd yr etholiad a'r asiantiaid sy'n bresennol. Gall yr ymgeiswyr hynny sy'n parhau i ymladd yr etholiad, eu hasiantiaid etholiadol a'r asiantiaid cyfrif hynny sydd wedi cael awdurdod penodol i wneud hynny ofyn am ailgyfrif⁹⁸.
- Pan fydd yr ymgeiswyr a'r asiantiaid wedi cael cyfle i wirio'r ffigurau (a phan fydd unrhyw ailgyfrif wedi'i gwblhau), rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol lunio datganiad o gyfansymiau lleol yn cynnwys nifer y pleidleisiau ail ffafriaeth ar gyfer pob ymgeisydd a chyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd mewn perthynas â phleidleisiau ail ffafriaeth, wedi'u categoreiddio yn ôl y rheswm dros eu gwrthod.
- Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu o'r datganiad o gyfansymiau lleol.
- Cyn y gall y Swyddog Canlyniadau Lleol hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid o gynnwys y datganiadau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd a chyfansymiau lleol a chyhoeddi hysbysiad, rhaid iddo fod wedi cael awdurdod gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu⁹⁹.
- Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu goladu'r holl gyfansymiau lleol ar gyfer ardal yr heddlu. Pan fydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wedi derbyn yr holl gyfansymiau lleol ar gyfer ardal yr heddlu, rhaid iddo gyfrifo cyfanswm y pleidleisiau ail ffafriaeth a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd a chyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd¹⁰⁰.
- Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu rannu'r ffigurau perthnasol â'r asiantiaid etholiadol ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n weddill sy'n bresennol a bodloni eu hunain ynghylch cywirdeb y cyfrifiad. Gall asiant etholiadol ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n weddill wneud cais am ailgyfrifiad ond gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wrthod ailgyfrifo'r ffigurau os yw'r cais yn afresymol yn ei farn ef.
- Pan fydd yr asiantiaid wedi cael y cyfle i wirio'r ffigurau (a phan fydd unrhyw ailgyfrifiad wedi'i gwblhau), rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ddatgan y canlyniad fel a ganlyn¹⁰¹:
 - Os yw'r ymgeiswyr sy'n weddill wedi cael nifer gyfartal o bleidleisiau ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth, rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu benderfynu ar hap pa un a gaiff ei ethol.
 - Fel arall, caiff yr ymgeisydd sydd â'r cyfanswm mwyaf o bleidleisiau ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth ei ethol.



Ceir rhagor o ganllawiau ar y prosesau y mae angen i chi eu dilyn ar ôl datgan y canlyniad ym **Mhennod 8** - Ar ôl datgan y canlyniad.

Cyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus

7.7 Mae'r Comisiwn wedi datblygu canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Caiff hyn ei gynnwys yn Rhan E: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau o'r canllawiau ar gyfer [Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#), ar gyfer [etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn unig yn Lloegr](#) ac ar gyfer [etholiadau llywodraeth leol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd cyfunol yn Lloegr](#) ac mewn llyfryn ar wahân ar gyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus.

7.8 Dylech ystyried sut y byddwch yn gweithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu er mwyn sicrhau y cyflwynir dyfarniadau cyson ar y papurau pleidleisio ar gyfer yr ardal heddlu gyfan. Dylai hyn gynnwys ystyried yr angen i ddarparu sesiynau briffio neu hyfforddi ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol a ph'un a ydych am roi unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau ychwanegol iddynt o ran sut y dylent gyflwyno dyfarniadau ar bapurau pleidleisio amheus.

7.9 Mae'r broses o gategoreiddio a chofnodi papurau pleidleisio a wrthodwyd yn ôl y rhesymau dros eu gwrthod yn rhan bwysig o'r llwybr archwilio ar gyfer y cyfrif, gan ennyn hyder yn y canlyniad. Dylech ystyried sut i sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn deall sut y dylid categoreiddio papurau pleidleisio a wrthodwyd a sut y gellir cofnodi'r wybodaeth hon yn gywir.

Gwirio a chymeradwyo cyfansymiau lleol

7.10 Fel Swyddogion Canlyniadau Lleol yr Heddlu, chi sy'n gyfrifol am awdurdodi Swyddogion Canlyniadau Lleol i gyhoeddi hysbysiad o'r datganiadau o gyfansymiau lleol o nifer y pleidleisiau a fwriwyd a'r papurau pleidleisio a wrthodwyd. Mae gwirio ac awdurdodi'r cyfansymiau hyn yn gam allweddol o ran sicrhau bod y canlyniad yn gywir a bod llwybr archwilio clir a diamwys. Felly, mae angen i chi roi proses wirio drylwyr a chadarn ar waith i allu bodloni eich hun bod y cyfansymiau lleol yn gywir ac y caiff gwybodaeth a ffigurau eu cofnodi a'u trosglwyddo'n gywir gan Swyddogion Canlyniadau Lleol, a'u cofnodi a'u coladu'n gywir gennyh chi a'ch staff.

7.11 Mae cyfrifo canlyniad cywir yn dibynnu ar ffigurau dilysu a chyfrif cywir, a bydd angen i chi ystyried yn benodol pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod y cyfansymiau lleol a dderbyniwch oddi wrth Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gywir cyn i chi awdurdodi'r broses o gyhoeddi'r datganiad lleol.

7.12 Yn benodol, dylech ystyried sut i sicrhau y caiff y canlynol eu cofnodi a'u trosglwyddo'n gyson ac yn gywir:

- cyfanswm y papurau pleidleisio sy'n mynd ymlaen i'r cyfrif, gan sicrhau bod y ffigur hwn yn cynnwys yr holl bapurau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio **ac** agor pleidleisiau post
- cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd:
 - **Ile mai dim ond dau ymgeisydd a geir**, cyfanswm y pleidleisiau
 - **Ile y ceir tri neu fwy o ymgeiswyr**, cyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf ac, os caiff pleidleisiau ail ffafriaeth eu cyfrif, cyfanswm y pleidleisiau ail ffafriaeth
- cyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd a'r niferoedd a gofnodwyd ym mhob categori gwrthod
- cyfanswm y pleidleisiau a gafodd eu cyfrif neu'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf/ail ffafriaeth, lle y bo'n briodol:
 - **Ile mai dim ond dau ymgeisydd a geir**, - dylai cyfanswm y pleidleisiau ynghyd â chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd gyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio sydd wedi mynd ymlaen i'r cyfrif.
 - **Ile y ceir tri neu fwy o ymgeiswyr** -
dylai cyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf ynghyd â chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd gyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio sydd wedi mynd ymlaen i'r cyfrif
pan fydd angen ail gyfrif, dylai'r papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ffafriaeth gyntaf i'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn parhau i ymladd yr etholiad gyfateb i'r canlynol:
 - cyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth ddilys ar gyfer ymgeisydd sy'n parhau i ymladd yr etholiad, a
 - cyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth ddilys ar gyfer ymgeisydd nad yw'n parhau i ymladd yr etholiad, a
 - y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn ystod yr ail gyfrif

7.13 Os bydd y ffigurau hyn yn amrywio o gwbl, dylech ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau Lleol gymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol ac yn briodol yn eich barn chi i geisio datrys yr amrywiant, a gallu egluro unrhyw amrywiant sy'n weddill i chi.

7.14 Ym mhob cam, cyn i chi dderbyn unrhyw ffigurau'n ffurfiol, dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol sydd wedi'u darparu eu gwirio, yn cynnwys sicrhau nad oes unrhyw wallau trawsgrifio.

7.15 Os oes gennych reswm dros amau cywirdeb y broses o gyfrif y pleidleisiau mewn unrhyw ardal bleidleisio, gallwch gyfarwyddo'r Swyddog Canlyniadau Lleol i ailgyfrif y pleidleisiau. Pan fyddwch yn fodlon â'r cyfansymiau lleol, gallwch ei awdurdodi i gyhoeddi hysbysiad o'r datganiad o gyfansymiau lleol.

Ailgyfrifon

7.16 Gall Swyddogion Canlyniadau Lleol ailgyfrif pleidleisiau o dan amgylchiadau penodol ar ôl cwblhau'r cyfrif cyntaf neu'r ail gyfrif¹⁰². Pan fydd canlyniad y cyfrif cyntaf wedi'i ddatgan, ni ellir ailgyfrif y pleidleisiau a gafodd eu cyfrif yn y cylch hwnnw. Ar ôl cwblhau'r ail gyfrif, dim ond y pleidleisiau ail ffafriaeth a gafodd eu cyfrif fel rhan o'r ail gyfrif y gellir eu hailgyfrif.

7.17 Gall ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol a'r asiantiaid cyfrif hynny a awdurdodwyd yn benodol i wneud cais am gyfrif wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ailgyfrif y pleidleisiau. Ni all unrhyw asiantiaid cyfrif eraill nac unigolion sy'n bresennol yn y cyfrif wneud cais am ailgyfrif. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol wrthod y cyfryw gais os bydd yn ystyried ei fod yn afresymol.

7.18 Dylai unrhyw brotocol rydych wedi'i lunio ar gyfer sut y dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gyfathrebu â chi yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif gynnwys manylion yr hyn y dylent ei wneud os bydd cais am ailgyfrif: er enghraifft, efallai y byddwch am ofyn i Swyddogion Canlyniadau Lleol eich hysbysu o'r holl geisiadau a gânt am ailgyfrif neu gallech ofyn iddynt eich hysbysu pan fyddant yn ystyried gwrthod cais am ailgyfrif.

7.19 Gallwch gyfarwyddo Swyddog Canlyniadau Lleol unigol i ailgyfrif y pleidleisiau ar gyfer ardal bleidleisio benodol, ond dim ond os oes gennych reswm dros amau cywirdeb cyfrif y pleidleisiau yn yr ardal bleidleisio honno. Ni allwch gyfarwyddo ailgyfrif llawn o'r holl bleidleisiau yn ardal yr heddlu¹⁰³.

Cyfrifo'r canlyniad

Mynediad i'r cyfrifiad o'r canlyniad

7.20 Dylech sicrhau bod yr holl brosesau yn dryloyw ac yn digwydd o flaen pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol ar y prosesau i'w dilyn.

7.21 Dim ond y bobl ganlynol sydd â hawl i fod yn bresennol ar adeg cyfrifo'r canlyniad¹⁰⁴:

- chi a'ch clercod
- Swyddogion Canlyniadau Lleol a chlerc a ddewisir gan bob un ohonynt
- ymgeiswyr ac un unigolyn arall a ddewisir gan bob ymgeisydd
- asiantiaid etholiadol (gall unrhyw is-asiant a benodir ar gyfer yr ardal lle y cynhelir y cyfrifiad o'r canlyniad fod yn bresennol pan na fydd yr asiant etholiadol yn bresennol)

- cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig

7.22 Dim ond os ydych yn fodlon nad amherir ar effeithlonrwydd y cyfrifiad a'ch bod wedi ymgynghori â'r asiantiaid etholiadol neu o'r farn y byddai'n anymarferol gwneud hynny y gallwch ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol.

7.23 Mewn etholiad plediais atodol, lle y caiff y pleidleisiau ail ffafriaeth eu cyfrif, dim ond yr ymgeiswyr sy'n parhau i ymladd yr etholiad, un unigolyn a ddewisir gan bob un ohonynt ac unrhyw asiantiaid a benodir ganddynt sydd â hawl i fod yn bresennol ar adeg y cyfrifiad a gynhelir gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar ddiwedd y cam hwnnw o'r cyfrif. Fodd bynnag, gallwch ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol fel y nodir uchod¹⁰⁵.

Cyfathrebu yn ystod y broses o goladu a datgan canlyniadau



Mae'r [Canllawiau Cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#) yn rhoi canllawiau ar ddatblygu cynlluniau cyfathrebu er mwyn cefnogi'r broses o gynnal yr etholiad.

7.24 Mae cyfathrebu da, mewn sesiynau briffio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid a'r cyfryngau cyn y broses o goladu'r canlyniad ac yn ystod y digwyddiad ei hun, yn galluogi'r rhai sy'n bresennol i graffu'n briodol ar yr holl weithrediadau, a bydd hyn yn helpu i fagu hyder bod y canlyniad yn gywir. Gall rhoi gwybodaeth am y prosesau i'w dilyn hefyd helpu i leihau nifer yr ymholiadau a geir gan ymgeiswyr ac asiantiaid, y cyfryngau a phobl eraill sy'n bresennol.

7.25 Mae ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol yn Rhan E - Dilysu a chyfrif y pleidleisiau o'n canllawiau ar gyfer [etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd](#), ar gyfer [etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn unig yn Lloegr](#) ac [ar gyfer etholiadau cyfunol llywodraeth leol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr](#) yn cwmpasu'r wybodaeth y dylid ei darparu yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif, a'r ffyrdd y gellir gwneud hynny. Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, mae hefyd angen i chi sicrhau cysondeb a thryloywder yn ardal yr heddlu o ran y wybodaeth a ddarperir yn ystod y prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau a phryd a sut y caiff ei chyfathrebu, gan ystyried sut y trefnir y prosesau dilysu a chyfrif yn ardal yr heddlu.

7.26 Dylech sicrhau eich bod wedi paratoi gwybodaeth briodol er mwyn egluro'r prosesau rydych am eu dilyn yn ystod y broses o goladu canlyniadau i unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr ac aelodau o'r cyfryngau sy'n bresennol. Dylech o leiaf egluro eich rôl fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu a nodi, lle y bo'n briodol, pwy yw eich dirprwyon a staff coladu

canlyniadau allweddol ac egluro eu rolau. Dylech hefyd egluro sut y bydd y broses o goladu canlyniadau yn gweithio, yn cynnwys sut mae hyn yn berthnasol i'r prosesau o ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn ardal yr heddlu, a nodi'r camau allweddol yn y broses.

7.27 Dylech wneud cyhoeddiadau ar ddechrau'r digwyddiad ac yn rheolaidd yn ystod y gweithrediadau er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl sy'n bresennol am beth sy'n digwydd ble a phryd. Dylech hefyd gyhoeddi ar y dechrau pryd y bydd disgwyl i'r canlyniad gael ei ddatgan. Os oes tri neu fwy o ymgeiswyr, dylech egluro y bydd naill ai un neu ddau gam i'r cyfrif a'r amser y rhagwelir i'r cyfrif cyntaf ddod i ben. Os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol ar ôl y cyfrif cyntaf, dylech gyhoeddi canlyniad y cyfrif cyntaf ac egluro cam nesaf y cyfrif a'r amser y rhagwelir i'r canlyniad gael ei ddatgan.

7.28 Dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r sawl sy'n bresennol yn y broses o goladu canlyniadau ac felly bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn cael gwybodaeth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol ac ar ba gamau o'r broses er mwyn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl sy'n bresennol yn ystod y broses o goladu canlyniadau. Yn benodol lle na chaiff y broses o gyfrif ei chynnal mewn un lleoliad canolig, bydd angen i chi gyfleu yn eich protocolau cyfathrebu pa wybodaeth y mae angen ei rhannu am hynt y prosesau dilysu a chyfrif ym mhob un o'r ardaloedd pleidleisio, a sicrhau y caiff gwybodaeth gyson ei chyfathrebu i chi gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol neu Swyddogion Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol) yn rheolaidd drwy gydol y broses. Bydd hefyd angen i chi sicrhau eich bod yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn rheolaidd ar hynt y prosesau yn ardal yr heddlu, fel y gallant gyfathrebu'r wybodaeth hon yn lleol.

7.29 Hefyd, os bydd asiantiaid neu arsylwyr yn anfodlon o gwbl ar y modd y caiff y gweithrediadau eu cynnal, dylai fod cyfle bob amser iddynt wneud sylwadau'n uniongyrchol i chi ar y cyfle cyntaf posibl fel y gallwch ystyried unrhyw bryderon, rhoi esboniadau a sicrwydd, a chymryd unrhyw gamau unioni os bydd angen.

7.30 Ynghyd â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol neu Swyddogion Canlyniadau Lleol (fel sy'n briodol) dylai fod gennych gynllun ar gyfer y cyfryngau ar waith er mwyn sicrhau bod eich negeseuon a'ch dull gweithredu o ran cyfathrebu â'r cyfryngau yn ystod y prosesau o ddilysu, cyfrif a choladu canlyniadau yn gyson yn ardal yr heddlu. Yn ogystal â gwneud trefniadau ymarferol er mwyn iddynt fod yn bresennol, dylai eich cysylltiad cynnar â'r cyfryngau gynnwys esboniad o'r prosesau i'w dilyn a phryd y rhagwelir y caiff y canlyniad ei ddatgan.

7.31 Yn y lleoliad coladu canlyniadau, dylech gynnwys lle a chyfle i'r cyfryngau adrodd ar y canlyniad. Mae gennych ddisgresiwn i benderfynu pa gynrychiolwyr o'r cyfryngau a gaiff ganiatâd i fod yn bresennol. Fel gyda phawb arall sy'n bresennol, rhaid i chi sicrhau na fydd cynrychiolwyr y cyfryngau yn ymyrryd â'r broses nac yn peryglu cyfrinachedd y bleidlais.

7.32 Dylech ystyried rhoi gwybodaeth a/neu sesiynau briffio ymlaen llaw i gynrychiolwyr y cyfryngau sy'n bresennol yn ystod y broses o goladu'r canlyniad a datgan y canlyniad a sicrhau eich bod wedi gwneud y paratodau angenrheidiol ar eu cyfer. Mae Rhan E: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol [ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu](#), [ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn unig yn Lloegr](#) ac [ar gyfer etholiadau cyfunol llywodraeth leol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn Lloegr](#) yn cynnwys rhagor o fanylion ac yn nodi'r mathau o ddarpariaeth y gall fod angen i chi ei gwneud ar gyfer aelodau o'r wasg a'r cyfryngau sy'n bresennol, yn cynnwys sicrhau bod lle a chyfarpar addas ar gael yn y lleoliad a bod prosesau ac adnoddau clir ar waith ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyfryngau ac ymdrin ag ymholiadau gan y cyfryngau yn ystod y broses o goladu canlyniadau.

7.33 Os yw cynrychiolwyr o'r cyfryngau wedi cael eu hachredu'n arsylwyr gan y Comisiwn a'u bod yn bresennol yn rhinwedd y rôl honno, mae ganddynt yr un hawliau a rhwymedigaethau ag unrhyw arsylwr achrededig arall. Fel unrhyw arsylwyr eraill, mae'n ofynnol iddynt ystyried [Cod ymarfer y Comisiwn i arsylwyr](#) a rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad a wnewch ynghylch defnyddio camerâu ac offer recordio arall¹⁰⁶.

Y broses o gyfrifo

7.34 Rhaid i chi gyfrifo'r canlynol¹⁰⁷:

- Lle y ceir dau ymgeisydd: cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd, cyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a gafodd eu categoreiddio yn ôl y rheswm dros eu gwrthod
- Lle y ceir tri neu fwy o ymgeiswyr:
 - cyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd, cyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a gafodd eu categoreiddio yn ôl y rheswm dros eu gwrthod, a ph'un a chaiff ymgeisydd ei ethol am fod ganddo fwyafrif cyffredinol o'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf ai peidio
 - os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol ar ôl y cyfrif cyntaf, cyfanswm y pleidleisiau ail ffafriaeth a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd sy'n parhau i ymladd yr etholiad, cyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd yn ystod yr ail gyfrif, a chyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd sy'n parhau i ymladd yr etholiad

Ailgyfrifo'r canlyniad

Y cyfrif cyntaf

7.35 Cyn gynted ag y byddwch wedi cyfrifo canlyniad y cyfrif cyntaf (neu ganlyniad y cyfrif mewn etholiad lle mai dim ond dau ymgeisydd a geir), dylech hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid etholiadol sy'n bresennol o'r

cyfansymiau a gyfrifwyd gennych a rhoi cyfle iddynt fodloni eu hunain bod eich cyfrifiadau'n gywir¹⁰⁸.

7.36 Gall asiantiaid etholiadol ofyn i chi ailgyfrifo'r cyfansymiau. Gallwch wrthod y cyfryw gais os byddwch yn ystyried ei fod yn afresymol.

Yr ail gyfrif

7.37 Cyn gynted ag y byddwch wedi cyfrifo canlyniad yr ail gyfrif, dylech hysbysu'r ymgeiswyr sy'n parhau i ymladd yr etholiad ac unrhyw rai o'u hasiantiaid etholiadol sy'n bresennol o'r cyfansymiau a gyfrifwyd gennych a rhoi cyfle iddynt fodloni eu hunain bod eich cyfrifiadau'n gywir.

7.38 Gall yr asiantiaid etholiadol hynny ofyn i chi ailgyfrifo'r cyfansymiau. Gallwch wrthod y cyfryw gais os byddwch yn ystyried ei fod yn afresymol.

Datgan y canlyniad

7.39 Rhaid i chi ddatgan enw'r ymgeisydd a gaiff ei ethol¹⁰⁹.

7.40 Pan fydd ymgeisydd wedi defnyddio ei enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylech ddefnyddio ei enw llawn a'i enw a ddefnyddir yn gyffredin wrth ddatgan y canlyniad.

7.41 Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth ystyried datgan y canlyniad:

- Penderfynwch ar yr union fan yn y lleoliad lle y caiff y canlyniad ei ddatgan a phwy fydd ar y llwyfan ar yr adeg hon. Dylai'r rhai y mae angen iddynt gyrraedd y llwyfan allu gwneud hynny'n hawdd. Mae rhai Swyddogion Canlyniadau yn defnyddio byrddau arddangos fel cefndir i gyhoeddi'r canlyniadau.
- Dylai unrhyw gyfarpar cyhoeddi fod yn ei le a dylid ei wirio cyn i'r cyfrif ddechrau.
- Gwiriwch ddwywaith fod y canlyniad yn gywir, a'i fod wedi'i ysgrifennu ar ffurf geiriau ar gyfer rhoi'r canlyniad ar lafar er mwyn osgoi unrhyw wallau. Efallai y bydd angen i chi ailadrodd y datganiad fel y gall y rhai sy'n bresennol glywed y manylion yn glir, yn enwedig os bydd y rhai sy'n bresennol yn cadw sŵn. Dylech gymryd camau i roi copi ysgrifenedig o'r canlyniadau i gynrychiolwyr y cyfryngau sy'n bresennol pan wneir y cyhoeddiad ar yr adeg y gwneir y cyhoeddiad oherwydd bydd hyn yn eu helpu i sicrhau eu bod yn trosglwyddo'r canlyniadau yn gywir.

7.42 Unwaith y bydd y canlyniad wedi'i ddatgan, bydd yn derfynol ac ni ellir ei newid. Nid yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi i gywiro canlyniad anghywir unwaith y bydd wedi'i ddatgan.

7.43 Ceir rhagor o wybodaeth am yr hysbysiadau ar ôl y canlyniad a gweithdrefnau eraill ar ôl y canlyniad ym [Mhennod 8: After the declaration of the result](#).

8 Ar ôl datgan y canlyniad

Gweithgarwch ar ôl yr etholiad

Rhoi hysbysiad o'r canlyniad

8.1 Yn ogystal â datgan y canlyniad, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad o'r canlynol¹¹⁰:

- Enw (a disgrifiad os o gwbl) o'r ymgeisydd a etholwyd.
- Mewn etholiad lle mai dim ond dau ymgeisydd a geir, rhaid i chi hefyd roi cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd (p'un a gaiff ei ethol ai peidio), ynghyd â nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd.
- Mewn etholiad lle mae tri neu fwy o ymgeiswyr, rhaid i chi roi cyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob un o'r penawdau a ddangosir yn y datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd. Os cafodd y pleidleisiau ail ffafriaeth eu cyfrif, rhaid i chi hefyd gyhoeddi hysbysiad o gyfanswm y pleidleisiau ail ffafriaeth a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd sy'n parhau i ymladd yr etholiad yn ystod ail gam y cyfrif, ynghyd â nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd ar y cam hwnnw ar y sail eu bod heb eu marcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd ynghylch y bleidlais ail ffafriaeth.

8.2 Dylech sicrhau bod copi o'r hysbysiad o'r canlyniad ar gael i bawb sydd â diddordeb cyn gynted â phosibl, yn cynnwys drwy ei gyhoeddi ar wefan eich awdurdod lleol. Rhaid i chi anfon copi at bob Swyddog Canlyniadau Lleol er mwyn iddo gyhoeddi hysbysiad o'r canlyniad o fewn ei ardal bleidleisio a rhaid i chi hefyd anfon copi o'r hysbysiad hwn at y Gweinidog. .



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael gwybod am y canlyniad mewn ffordd glir ac amserol. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith ar gyfer cyfathrebu canlyniadau i bleidleiswyr.

Ernesau

8.3 Rhaid i chi ddychwelyd ernes unrhyw ymgeisydd sydd wedi cael mwy na 5% o gyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys a fwriwyd yn yr etholiad. Rhaid i chi ddychwelyd yr ernes i'r unigolyn a wnaeth yr ernes neu ei gynrychiolydd personol heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl datgan canlyniad yr etholiad¹¹¹.

8.4 Os byddwch yn dychwelyd ernes ar ffurf siec, ystyrir y caiff ei dychwelyd ar y diwrnod y caiff y siec ei phostio.

8.5 Bydd unrhyw ymgeiswyr nad ydynt wedi cael 5% o gyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys yn colli eu hernes. Rhaid i chi anfon unrhyw ernesau a gollwyd at Ei Mawrhydi. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses hon.

Storio'r papurau enwebu

8.6 Rhaid i chi gadw'r papurau enwebu yn ddiogel a chaniatáu i bobl a restrir yn eu harchwilio **Presenoldeb wrth gyflwyno papurau enwebu** eu harchwilio.

8.7 Ar ôl yr adeg honno, dylech storio'r papurau enwebu'n ddiogel am flwyddyn ar ôl yr etholiad, ar wahân i'r ffurflen cyfeiriad cartref, y mae'n rhaid ei dinistrio'r diwrnod gwaith nesaf yn dilyn cyfnod o 21 diwrnod calendr ar ôl datgan yr ymgeisydd etholedig. Fodd bynnag, ni ddylid dinistrio'r ffurflenni cyfeiriad cartref os oes deiseb neu apêl o ddeiseb neu gam cyfreithiol arall yn ymwneud â'r etholiad. Os felly, rhaid i chi aros tan y diwrnod gwaith nesaf ar ôl i weithrediadau neu apeliadau o'r fath gael eu cwblhau cyn dinistrio'r ffurflenni¹¹².

Casglu data ac adborth

8.8 Gofynnir i chi anfon gwybodaeth a data i'r Comisiwn mewn perthynas â'r etholiadau.

8.9 Bydd y Comisiwn yn adrodd ar y broses o weinyddu'r etholiadau, a bydd yn gofyn am adborth gennych i lywio ein hadroddiad.

8.10 Darperir ffurflenni ar gyfer casglu gwybodaeth a data, a nodiadau canllaw ategol i'w cwblhau drwy ein Bwletin ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.

Datganiad derbyn swydd

8.11 Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus wneud datganiad derbyn swydd ar ffurf a ragnodir, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r swyddog priodol yn ardal yr heddlu. Mae deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i'r datganiad gael ei gyflwyno i bennaeth gwasanaeth y gwasanaethau cyflogedig mewn awdurdod lleol penodol a nodir gan y Gweinidog. Os mai chi yw pennaeth y gwasanaethau cyflogedig yn yr awdurdod lleol a nodir gan y Gweinidog yn ardal yr heddlu at y diben hwn, dylech anfon copi o'r datganiad i'r Gweinidog. Dylech gadw'r fersiwn wreiddiol tan etholiad nesaf Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd¹¹³.

Cyfrifyddu ar gyfer yr etholiad

8.12 Ariennir etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd gan Lywodraeth y DU. Bydd Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau a fydd yn nodi faint y gallwch ei hawlio. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi canllawiau ar gyfrifyddu ar gyfer yr etholiadau.

Gwariant etholiadol ymgeiswyr

8.13 Ceir rheolau ar wariant etholiad gan ymgeiswyr mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a rheolau ar y rhoddion a gânt tuag at eu hymgyrch. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn monitro ac yn rhoi cyngor er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr a'u hasiantiaid yn cydymffurfio â'r rheolau hyn.

8.14 Eich rôl chi yw sicrhau y caiff y dogfennau y mae'n rhaid i ymgeiswyr a'u hasiantiaid eu cyflwyno i chi eu cadw'n briodol a'u bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.



Mae [Rhan 3](#) o'n canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn egluro'r rheolau ar wariant a rhoddion a dylech roi'r rhain i ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd. Gall ymgeiswyr ac asiantiaid hefyd lawrlwytho'r ffurflenni perthnasol a'r nodiadau esboniadol o'n [gwefan](#).

Ffurflenni gwariant ymgeiswyr

8.15 Rhaid i ymgeiswyr adrodd eu gwariant etholiad a'r rhoddion a wnaed tuag at eu hymgyrch ar ôl yr etholiad.

8.16 Rhaid i'r asiant ar gyfer ymgeisydd gyflwyno ffurflen gwariant a rhoddion i chi ynghyd ag unrhyw ddogfennau atodol, fel anfonebau a derbynebau perthnasol ar gyfer taliadau o fwy na £20 a wnaed a rhoddion o fwy na £50 a gafwyd, o fewn 70 diwrnod calendr i'r dyddiad y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan. Rhaid i asiantiaid hefyd gyflwyno datganiad ar gynnwys y ffurflen o fewn 70 diwrnod calendr i'r dyddiad y caiff dyddiad yr etholiad ei ddatgan. Rhaid i'r datganiad fod yn y ffurflen a nodir yn rheolau'r etholiad neu mewn ffurflen debyg¹¹⁴.

8.17 Rhaid i ymgeiswyr hefyd gyflwyno datganiad ar gynnwys y ffurflen o fewn saith diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd yr asiant etholiadol yn cyflwyno'r ffurflen. Rhaid i'r datganiad fod yn y ffurflen a nodir yn rheolau'r etholiad neu mewn ffurflen debyg¹¹⁵.

8.18 Os yw'r ymgeisydd y tu allan i'r DU, rhaid i'r datganiad gael ei wneud o fewn 14 diwrnod calendr ar ôl i'r ymgeisydd ddychwelyd i'r DU. Os bydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun, dim ond un datganiad y mae'n ofynnol iddo ei gyflwyno.

Cadw ffurflenni gwariant ymgeiswyr

8.19 Rhaid i chi gadw copi o bob ffurflen gwariant a datganiad mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y gwnaethoch ei derbyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid i chi sicrhau bod y copïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am ddim yn eich swyddfa neu mewn lle arall cyfleus a ddewisir gennych chi. Rhaid i chi hefyd roi copïau o'r ffurflenni, datganiadau neu unrhyw ddogfennau atodol ar gais. Y ffi ar gyfer

copi o unrhyw ffurflen, datganiad neu ddogfen yw 15c ar gyfer pob ochr o bob tudalen¹¹⁶.

8.20 Rhaid i chi dynnu cyfeiriadau unigolion sydd wedi gwneud rhoddion i ymgeiswyr o bob copi o ddatganiadau o roddion sydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio neu a ddarparwyd ar gais. Dylech hefyd sicrhau y caiff data personol ei olygu o'r copïau hyn.

8.21 Ar ddiwedd y cyfnod dwy flynedd, os bydd yr ymgeisydd neu'r asiant etholiadol yn gwneud cais iddynt, rhaid i'r ffurflenni, y datganiadau a'r dogfennau ategol gael eu dychwelyd i'r ymgeisydd; fel arall, dylid eu dinistrio.

Cyhoeddi'r amser a'r lleoliad ar gyfer archwilio ffurflenni gwariant a datganiadau ymgeiswyr

8.22 O fewn 10 diwrnod i'r dyddiad cau i ymgeiswyr gyflwyno eu ffurflenni gwariant i chi, rhaid i chi gyhoeddi, mewn o leiaf ddau bapur newydd sy'n cael ei ddsbarthu yn ardal yr heddlu, hysbysiad o'r amser a'r lleoliad lle y gellir archwilio'r ffurflenni, y datganiadau a'r dogfennau ategol. Rhaid i chi hefyd anfon copi o'r hysbysiad hwn i bob asiant etholiadol¹¹⁷.

8.23 Os nad ydych wedi cael un o'r ffurflenni neu ddatganiadau gofynnol rhaid i chi nodi hyn yn yr hysbysiad. Os byddwch yn derbyn ffurflen neu ddatganiad yn dilyn hyn, rhaid i chi, o fewn deg diwrnod i'w dderbyn, gyhoeddi hysbysiad (yn yr un ffordd â'r hysbysiad cyntaf) o'r amser a'r lleoliad y gellir archwilio'r ffurflen, y datganiad a'r dogfennau ategol, ac anfon copi o'r hysbysiad hwn i'r holl asiantiaid.

Ffurflenni y dylid eu hanfon ymlaen i'r Comisiwn Etholiadol

8.24 Rhaid i chi anfon copïau heb eu golygu o'r holl ffurflenni ymgeiswyr a datganiadau a dderbyniwch ymlaen i'r Comisiwn. Gall y Comisiwn hefyd ofyn i chi ddarparu copïau o anfonebau a derbynebau ar gais¹¹⁸.

8.25 Anfonwch gopïau PDF dros e-bost i candidates@electoralcommission.org.uk. Neu, gallwch anfon copïau o'r holl ddogfennau i'r cyfeiriad canlynol:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Heriau i ganlyniad yr etholiad

Deisebau etholiadol

8.26 Gellir defnyddio deisebau etholiadol i herio canlyniad etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

8.27 Gall deiseb etholiadol gael ei chyflwyno gan¹¹⁹:

- rywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- pedwar neu fwy o bobl a bleidleisiodd yn yr etholiad neu yr oedd ganddynt hawl i bleidleisio yn yr etholiad, heblaw am etholwyr a gofrestrwyd yn ddi-enw

8.28 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb yw¹²⁰:

- nad oedd yr unigolyn y ceir amheuaeth ynghylch ei ethol wedi'i lawn ethol
- bod yr unigolyn y ceir amheuaeth ynghylch ei ethol wedi'i anghymhwysu ar adeg yr etholiad
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd arferion llwgr neu anghyfreithlon neu ar y seiliau a nodir yn Adrannau 164 a 165 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

8.29 Mae'n debygol iawn y caiff yr unigolyn y ceir amheuaeth ynghylch ei ethol ei wneud yn wrthapeliwr i'r ddeiseb. Fel Swyddogion Canlyniadau Ardal yr Heddlu, byddwch yn wrthapeliwr i'r ddeiseb os yw'r ddeiseb yn ymwneud â threfn cynnal yr etholiad mewn ardal bleidleisio benodol neu ardaloedd pleidleisio penodol, bydd y Swyddogion Canlyniadau perthnasol hefyd yn ymatebydd¹²¹.

8.30 Rhaid cyflwyno deiseb o fewn 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad. Caniateir rhagor o amser mewn amgylchiadau penodol¹²².

8.31 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno deiseb etholiadol i gesio ei gyngor cyfreithiol ei hun. Ar gyfer unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â deisebau etholiadol, yn cynnwys cadarnhau'r dyddiadau cau, dylech gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol:

The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL

E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk
Ffôn: 0207 947 6877

Penderfyniad anghymhwysu barnwrol

8.32 Gall unrhyw un wneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cael ei anghymhwysu rhag bod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu nawr neu unrhyw bryd ers ei ethol.

8.33 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais am ddatganiad anghymhwysu barnwrol geisio ei gyngor ei hun.

Adolygu gweithdrefnau etholiad

8.34 Dylai eich cynllun prosiect ar gyfer yr etholiad gynnwys cynlluniau i gynnal gwerthusiad trylwyr o'r holl brosesau ar ôl yr etholiad a llunio adroddiad o'r gwersi a ddysgwyd y gellir ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol. Dylai eich proses werthuso gynnwys ceisio adborth gan y Swyddogion Canlyniadau perthnasol yn eich ardal heddlu a rhanddeiliaid priodol eraill.

8.35 Mae'r Comisiwn wedi darparu, fel rhan o'r [templed ar gyfer cynllun prosiect](#), rai nodau enghreifftiol ac adnoddau a awgrymir a fydd yn eich galluogi i fesur i ba raddau y mae trefn cynnal yr etholiad wedi bod yn llwyddiannus.

Yr adolygiad

8.36 Dylai cwmpas yr adolygiad gwmpasu pob agwedd ar yr etholiad. Dylai eich cynllun prosiect gael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad, a dylai pob proses y cynlluniwyd ar ei chyfer ac a gyflawnwyd gael ei hadolygu.

8.37 Rhan allweddol o'r adolygiad fydd ystyried y nodau a'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun prosiect a mesur eich perfformiad yn eu herbyn.

8.38 Dylech dalu sylw arbennig i adolygu'r canlynol:

- y gwaith o gynllunio eich prosiect
- p'un a oeddech yn gallu sicrhau digon o adnoddau
- effeithiolrwydd eich strwythur rheoli a chydweithredu, yn cynnwys monitro eich gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i chynnal gan y Swyddogion Canlyniadau perthnasol yn eich ardal heddlu
- effeithiolrwydd eich strategaethau a'ch dulliau cyfathrebu
- recriwtio a hyfforddi staff
- ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantiaid
- rheoli'r broses enwebu a chyhoeddi cyfeiriadau ymgeiswyr
- trefnu a chyflwyno'r broses o goladu canlyniadau
- addasrwydd y lleoliadau a ddefnyddiwyd
- prosesu a thrin ymholiadau
- unrhyw faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch/uniondeb yr etholiad

8.39 Fel rhan o'r adolygiad dylech geisio adborth gan rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys:

- staff
- etholwyr
- ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol
- Swyddogion Canlyniadau perthnasol o ardal yr heddlu a'u staff
- sefydliadau lleol o bobl anabl, pobl hŷn a grwpiau ethnig lleiafrifol, a swyddogion mynediad y cyngor

8.40 Ar ôl i chi adolygu pob agwedd ar yr etholiad a cheisio adborth gan randdeiliaid priodol, dylech lunio dogfen yn nodi'r gwersi a ddysgwyd. Dylai'r ddogfen honno gynnwys dadansoddiad o ba arferion fu'n llwyddiannus a ble arall y gellid eu defnyddio, beth fydddech chi'n ei wneud eto neu'n wahanol, ac argymhellion allweddol. Dylai'r adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd gael ei ddefnyddio wedyn i lywio eich cynllun prosiect ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol. Dylech hefyd roi adborth i Swyddogion Canlyniadau perthnasol yn ardal yr heddlu fel rhan o'u hadolygiad o'r broses o gynnal yr etholiad yn eu hardal bleidleisio.

¹ Police and Crime Commissioner Elections Order 2012 (PCC Rules 2012) Sch 3 Rules 4,5 10 and 11

² National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 Sch 4A para 1

³ Representation of the People (Combination of Polls) (England and Wales) Regulations 2004 Reg 4

⁴ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 11

⁵ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 6

⁶ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 1

⁷ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 1

⁸ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 11

⁹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 10

¹⁰ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 10

¹¹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rules 6 and 19

¹² PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 13

¹³ PCC Rules 2012 Sch 3 Form 6

¹⁴ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 10

¹⁵ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 64

¹⁶ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 5

¹⁷ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 13

¹⁸ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 7

¹⁹ PCC Rules 2012 Sch 3 Form 6

²⁰ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 7

²¹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 6

²² PPERA 2000 s30(6A)

²³ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 11

²⁴ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 5

²⁵ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 6

²⁶ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 19

²⁷ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 5

²⁸ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 13

²⁹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 8

³⁰ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 9

³¹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 1

³² PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 11

³³ PCC Rules 2012 Sch 3 Rules 5 and 11

³⁴ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 11(7) and (8)

³⁵ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 12

³⁶ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 1

³⁷ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 11

³⁸ PCC Rules 2012 Sch 3 Rules 1 and 15

³⁹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 15

⁴⁰ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 16

⁴¹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rules 17 and 62

⁴² PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 69

⁴³ PCC Rules 2012 Art 52

⁴⁴ PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 2

45 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 4
46 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 7
47 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 9
48 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 9
49 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 10
50 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 12
51 PCC Rules 2012 Sch 8 Rules 4, 5 and 6
52 PCC Rules 2012 Sch 8 Rules 5 and 6
53 PCC Rules 2012 Sch 8 Rules 4 and 5
54 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 7
55 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 8
56 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 9
57 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 12
58 PCC Rules 2012 Sch 8 Rule 13
59 PCC Rules 2012 Art 26
60 PCC Rules 2012 Art 26 and 29
61 PCC Rules 2012 Art 26
62 PCC Rules 2012 Art 28
63 PCC Rules 2012 Art 29
64 PCC Rules 2012 Art 26
65 PCC Rules 2012 Art 27
66 PCC Rules 2012 Sch 2 Rule 32
67 PCC Rules 2012 Sch 2 Rule 33 and Sch 3 Rule 31
68 PCC Rules 2012 Art 86
69 PCC Rules 2012 Art 85
70 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 1
71 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 4
72 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 4
73 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 1
74 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 13
75 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 13(3)
76 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 13(4)
77 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 14
78 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 13(13)
79 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 1
80 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 24
81 PCC Rules 2012 Sch 4 Rule 19
82 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 24
83 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 30
84 PCC Rules 2012 Sch 4 Rule 24
85 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 30 and Art 85
86 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 28
87 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 58
88 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 49
89 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 49
90 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 49(6)
91 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 50
92 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 52
93 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 57
94 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 57
95 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 59
96 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 59(5)
97 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 59(5)
98 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 60
99 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 61
100 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 61
101 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 62
102 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 54
103 PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 55

-
- ¹⁰⁴ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 58
¹⁰⁵ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 60
¹⁰⁶ PPERA 2000 s6F
¹⁰⁷ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 59
¹⁰⁸ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 59
¹⁰⁹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 62
¹¹⁰ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 62
¹¹¹ PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 63
¹¹² PCC Rules 2012 Sch 3 Rule 64
¹¹³ Police Reform and Social Responsibility Act 2011 s70
¹¹⁴ PCC Rules 2012 Art 31 and 40
¹¹⁵ PCC Rules 2012 Art 41
¹¹⁶ PCC Rules 2012 Art 49
¹¹⁷ PCC Rules 2012 Art 48
¹¹⁸ PCC Rules 2012 Art 47
¹¹⁹ RPA1983 s128
¹²⁰ RPA 1983 s127
¹²¹ RPA 1983 s128
¹²² RPA 1983 s129